Adroddiad ar gyfer Cymwysterau Cymru

Nodweddion Cynlluniau Marcio Effeithiol mewn Cymwysterau sy'n Seiliedig ar Wybodaeth:Tystiolaeth o Adolygiad Llenyddiaeth a Chyfweliadau ag Arbenigwyr

Ebrill 2018

Angus Alton, Karen Brown a Sarah Maughan

Cynnwys

1 Rhestr termau 3

2 Crynodeb Gweithredol 5

3 Cyflwyniad 6

4 Methodoleg 6

4.1 Adolygiad Llenyddiaeth 6
4.2 Cyfweliadau â rhanddeiliaid 7
4.3 Grŵp Ffocws AlphaPlus 7

5 Crynodeb o'r Adolygiad Llenyddiaeth 7

5.1 Cefnogi asesiad o'r deiliannau bwriadedig 8
5.2 Cefnogi marcwyr i ddod i gasgliadau 9
5.3 Cefnogi cysondeb yr ymateb ymhlith marcwyr 10

6 Crynodeb o'r Cyfweliadau 12

6.1 Llunio cynlluniau marcio ar gyfer eitemau atebion byr 13
6.1.1 Eitemau (un marc fel arfer er bod eitem yn gallu cynnwys sawl pwynt o'r fath) sydd angen ateb cywir neu anghywir penodol 13
6.1.2 Eitemau sydd angen ateb mwy llawn, megis diffiniad neu eglurhad o ffenomen benodol mewn un neu ddwy frawddeg efallai, neu enghreifftiau o ffenomen benodol 13
6.1.3 Eitemau sy'n mynnu ymatebion mwy llawn (hyd at 10 o farciau) 14
6.1.4 Sut y dylai cynllun marcio ymdrin ag atebion annisgwyl? 14
6.1.5 Beth yw rôl sgriptiau enghreifftiol? 15
6.1.6 Beth yw rôl cynnwys dangosol? 15
6.2 Llunio cynlluniau marcio ar gyfer eitemau sy'n gofyn am atebion estynedig 15
6.2.1 Sut y dylai cynllun marcio ymdrin ag atebion annisgwyl? 17
6.2.2 Beth yw rôl sgriptiau enghreifftiol priodol? 17
6.2.3 Beth yw rôl cynnwys dangosol? 17
6.3 Gwahaniaethau rhwng pynciau 17

7 Crynodeb o Grŵp Ffocws AlphaPlus 18

8 Trafodaeth 21

9 Goblygiadau i'r Canllaw ar Gynlluniau Marcio 24

10 Atodiad 1: Y Rhaglen Gyfweliadau 26

11 Atodiad 2: Cyfeiriadau'r Adolygiad Llenyddiaeth 28

12 Atodiad 3: Manyleb yr Adolygiad Llenyddiaeth 29

1 Rhestr termau

Amcan Asesu (AA): datganiad o agwedd ar bwnc a fydd yn cael ei hasesu mewn cymhwyster. Rhoddir pwysoliad iddi (o fewn ystod yn aml) yn y cynnwys pwnc a ddiffinnir o fewn y rheoliad. Mae Amcanion Asesu fel arfer yn cwmpasu gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso a dadansoddi a gwerthuso, yn ogystal ag agweddau sy'n benodol i bynciau. Mae pob manyleb yn nodi'r ffordd y bydd yr asesiad cyffredinol yn bodloni'r gofynion hyn. Mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r gallu i gymharu cymwysterau o Gyrff Dyfarnu gwahanol o fewn yr un flwyddyn ac ar draws blynyddoedd.

Ateb enghreifftiol: mae'r arholwr yn llunio enghraifft yn dangos y ffordd y mae disgwyl i'r myfyriwr ymateb.

Barn gymharol: dull o roi gwaith yn nhrefn ansawdd nad yw'n defnyddio system sgorio. Fel arfer, bydd y marcwyr, sy'n arbenigwyr pwnc, yn trafod ac yn cytuno ar y rhinweddau y maent yn chwilio amdanynt yng ngwaith myfyriwr, a hyn yn ei hanfod fydd y cynllun marcio (er y tybir weithiau bod yr Amcanion Asesu yn rhannu neu'n crynhoi hyn yn ddigonol) ac yna byddant yn barnu gwaith myfyrwyr mewn parau, ac yn penderfynu'n syml pa un o'r ddau sydd orau. Ar yr amod y ceir digon o ddyfarniadau o'r fath, mae'n bosibl rhoi'r myfyrwyr yn nhrefn ansawdd sydd o leiaf mor ddibynadwy â dulliau sgorio arferol.

Cyfarfod safoni: cyfarfod o'r holl arholwyr wedi'i arwain gan yr Uwch Arholwr, gyda'r nod o sicrhau bod pob marciwr yn marcio mewn ffordd gyson. Bydd marcwyr fel arfer yn marcio nifer o sgriptiau neu eitemau, gan ymdrin â chymaint o'r ystod marciau â phosibl, lle mae uwch farcwyr wedi cytuno ar y marciau ymlaen llaw. Bydd y cyfarfod yn adolygu ac yn trafod y marciau a ddyfarnwyd. Mae'r cyfarfod hefyd yn gyfle i adolygu'r cynllun marcio yng ngoleuni ymatebion go iawn ac egluro neu ddiwygio ei ofynion yn ôl yr angen.

Cynllun marcio cyfannol: math o **gynllun marcio sy'n seiliedig ar lefelau** lle mae'n ofynnol i'r marciwr farnu'r ateb yn erbyn y cyfan o'r hyn y mae'r eitem yn ei dargedu mewn un cam. Mae'n rhaid i'r disgrifiadau perfformiad felly nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig ym mhob un o'r Amcanion Asesu a dargedir, ac mae'n rhaid i'r marciwr wneud penderfyniad o ran y gyfatebiaeth orau ar draws pob Amcan Asesu, gan roi ystyriaeth i unrhyw wahaniaethau yn y pwysoliad.

Cynllun marcio dadansoddol: math o **gynllun marcio sy'n seiliedig ar lefelau** lle caiff y wybodaeth a'r sgiliau y mae'r eitem yn eu targedu yn cael eu barnu ar wahân. Mae hyn fel arfer yn cynnwys creu set o fandiau marcio ar wahân ar gyfer pob **Amcan Asesu** (AA), gyda disgrifiad ar gyfer pob un a'r marciwr yn penderfynu ar y gyfatebiaeth orau o ran yr ymateb ar gyfer pob llinyn. Caiff cynllun o'r fath ei gyflwyno'n aml ar ffurf grid. Mae'r grid hwn yn caniatáu i'r marciau gael eu dyfarnu'n benodol er mwyn adlewyrchu'r pwysoliadau bwriadedig ar draws yr Amcanion Asesu.

Cynllun marcio sy'n seiliedig ar farciau: cynllun marcio sy'n rhestru'r pwyntiau derbyniol ar gyfer ateb. Bydd fel arfer yn dyfarnu un marc fesul pwynt derbyniol hyd at uchafswm penodol, ac fel arfer ceir ychydig mwy o atebion derbyniol nag uchafswm y marc. Gellir defnyddio cynlluniau o'r fath ar gyfer eitemau sy'n cynnwys dim ond ychydig o farciau neu i asesu traethawd. Bydd angen i gynllun o'r fath hefyd nodi unrhyw amrywiaethau a ganiateir yn y ffordd y caiff pob pwynt derbyniol ei fynegi.

Cynllun marcio sy'n seiliedig ar lefelau a elwir hefyd yn **Gynllun marcio lefelau ymateb**: cynllun marcio lle mae'r marciwr yn cymharu perfformiad myfyriwr â set o ddisgrifiadau o berfformiad ar draws y wybodaeth a'r sgiliau a dargedir gan yr eitem. Mae'n rhaid i'r marciwr benderfynu pa ddisgrifiad sy'n cyfateb orau â pherfformiad y myfyriwr ac yna bydd yn dyfarnu marc o fewn y band o farciau cymwys. Gellir defnyddio cynlluniau o'r fath ar eitemau sy'n gymharol isel o ran eu tariff sy'n gofyn am asesiadau ansoddol i dasgau llawer mwy estynedig. Cânt eu nodweddu fel cynlluniau **Cyfannol** neu **Ddadansoddol**.

Cynnwys dangosol: enghreifftiau o'r math o ddeunydd y gall myfyriwr ei gynnwys wrth ateb cwestiwn. Gall awgrymu ffyrdd y gallai'r deunydd gael ei drin yn wahanol gan fyfyrwyr o wahanol lefelau cyrhaeddiad. Daw gyda rhybudd fel arfer, yn nodi ei fod at ddibenion dangosol ac nad ydyw'n adlewyrchu cynnwys gofynnol.

Detholion: enghreifftiau o waith byw gan fyfyrwyr y mae marc wedi'i gytuno ar eu cyfer ymlaen llaw gan uwch farcwyr, a gaiff eu defnyddio i fonitro cywirdeb y marcio yn ystod y broses farcio. Defnyddir y dull hwn ar gyfer marcio ar-lein yn unig. Lle mae'r broses ar bapur, defnyddir **sgriptiau safoni**

Effaith eurgylch: mae'r term hwn yn disgrifio effaith lle mae marciwr yn ei chael hi'n anodd cadw ei farn bresennol (ffafriol neu anffafriol) am fyfyriwr ar wahân i'r dyfarniad penodol sydd ei angen. Caiff yr effaith hon ei lliniaru'n sylweddol gan farcio ar-lein, a wneir ar adrannau cyfyngedig o bapur. Mae'n debygol iawn o amlygu'i hun wrth ddefnyddio **cynllun marcio dadansoddol** lle mae gofyn i farcwyr wneud nifer o ddyfarniadau annibynnol am ddarn o waith. Gwelwyd ei bod hefyd yn cael effaith wrth asesu sillafu, atalnodi a gramadeg neu ansawdd iaith.

Marciau Cario Gwall Ymlaen neu **farciau Dilyn Drwodd**: Dull sydd wedi'i ddylunio i fodloni'r egwyddor y dylai myfyriwr ond gael ei gosbi unwaith am unrhyw wall penodol. Yn ei hanfod, bydd ateb anghywir a roddir yn ddiweddarach mewn cwestiwn yn cael ei farcio fel petai'n gywir os caiff ei gyfrifo'n gywir gan ddefnyddio ateb anghywir o ran flaenorol o'r cwestiwn. Bydd yn rhaid i'r cynllun marcio nodi unrhyw gyfyngiadau wrth gymhwyso'r system yn glir, er enghraifft, natur y gwall.

Sgriptiau enghreifftiol: Enghreifftiau go iawn o sgriptiau myfyrwyr, wedi'u marcio ac yn aml yn cynnwys sylwadau, a ddefnyddir i egluro'r cynllun marcio. Ni ddylid eu drysu ag **atebion enghreifftiol.**

Sgriptiau safoni: lle caiff y marcio ei wneud ar bapur, bydd pob arholwr yn marcio set o sgriptiau yn syth ar ôl y **cyfarfod safoni** a bydd uwch farciwr yn adolygu ei waith marcio, a bydd yn rhaid cymeradwyo ei fod yn ddigon cywir cyn y caniateir iddo ddechrau marcio byw. Erbyn hyn, yr un set o lungopïau i bawb yw'r sgriptiau hyn fel arfer, gyda'r marciau wedi'u cytuno ymlaen llaw, a'r meini prawf ar gyfer yr hyn sy'n ddigon cywir hefyd wedi'u diffinio.

Ystod canlyniadau: y set gyflawn o ymatebion posibl i dasg benodol. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddeunydd y gellir dyfarnu marciau ar ei gyfer a'r hyn nad yw'n derbyn credyd. Y cynllun marcio, yn ei hanfod, yw'r ystod canlyniadau a ddisgwylir, a'r nod yw y dylai gyfateb yn berffaith i'r ystod wirioneddol. Y mwyaf manwl y bydd y dasg wedi'i diffinio, yr hawsaf y bydd hi i reoli'r ystod canlyniadau.

2 Crynodeb Gweithredol

Er mwyn cefnogi'r broses o werthuso, cymeradwyo a gwella cymwysterau yn barhaus, comisiynwyd AlphaPlus Consultancy gan Cymwysterau Cymru i ymchwilio a llunio canllawiau ar nodweddion cynlluniau marcio effeithiol ar gyfer cymwysterau sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau a gafwyd o'r canlynol: adolygiad llenyddiaeth, barn rhanddeiliaid gan swyddogion asesu proffesiynol o Gyrff Dyfarnu ac Awdurdodau Rheoleiddio Cymwysterau y DU, arbenigwyr mewn asesu o fewn pynciau penodol; a grŵp ffocws yn cynnwys ymarferwyr arbenigol.

Mae egwyddorion dylunio cynlluniau marcio da yn deillio o'u diben, sef cefnogi asesiad dilys a chyson, o amrywiaeth o dystiolaeth, er mwyn llywio casgliadau ar ddyfarnu graddau. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i gynllun marcio ddiffinio cwmpas yr ymatebion derbyniol a'r meini prawf unigol ar gyfer dyfarnu marciau yn erbyn ymatebion a'r ffordd y mae hyn yn ymwneud â phenderfyniadau ar ddyfarnu graddau. Mae'n rhaid i gynllun marcio roi digon o wybodaeth i farcwyr fel bod y casgliadau yn ddibynadwy ac yn gyson ymhlith y marcwyr.

Cafwyd consensws ymhlith rhanddeiliaid, ymarferwyr arbenigol ac yn yr adolygiad llenyddiaeth fod yn rhaid cael cysylltiad agos rhwng y cynllun marcio a manyleb asesu cyffredinol y cymhwyster a'r deilliannau bwriadedig er mwyn i gynllun marcio berfformio yn unol â'r bwriad. Yn ogystal, dylai gael ei ddatblygu yn unol â'r cwestiynau asesu, er mwyn sicrhau cysondeb yn holl elfennau'r cymhwyster. Derbyniwyd hefyd fod y meysydd lle bydd y cynlluniau marcio yn wynebu heriau sylweddol yn aml yn gysylltiedig â'r cwestiynau agored, tariff uwch, a all esgor ar amrywiaeth eang o ymatebion. Cafwyd consensws clir fod gwahaniaethau dilys yn y ffordd y gaiff rhai pynciau eu marcio ac felly mae angen amlwg i gadw amrywiaeth wrth ddylunio cynlluniau marcio er mwyn bodloni'r deilliannau gofynnol ar gyfer gwahanol gymwysterau.

Daethpwyd i'r casgliad fod y canlynol yn nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â chynlluniau marcio da:

- Digon o fanylion am yr atebion disgwyliedig a gofynnol a chynnwys dangosol i lywio penderfyniadau cyson, ar draws yr holl farciau sydd ar gael
- Canllawiau clir ar y ffordd o ddelio ag atebion annisgwyl, gan ganolbwyntio ar yr egwyddorion sy'n cefnogi'r deilliannau gofynnol
- Osgoi defnyddio atebion enghreifftiol unigol, ac yn hytrach, defnyddio ymatebion gan fyfyrwyr go iawn fel enghreifftiau yn y broses safoni
- Geiriau gorchymyn clir yn deillio o'r Amcanion Asesu a chysylltiadau rhwng y rhain a dyluniad y cwestiynau a'r cynllun marcio
- Disgrifiadau lefel a band clir, a gwahaniaeth clir rhyngddynt
- Osgoi gofynion ychwanegol (rhwystrau) y tu hwnt i'r rheini a bennir gan y cwestiwn
- Osgoi rhoi gormod o wybodaeth i farcwyr
- Sicrhau bod cyflwyniad ac iaith y cymhwyster cyfan yn glir ac yn gyson
- Wedi'i gefnogi gan brosesau sicrhau ansawdd a safoni cadarn ac agored, a bod cysylltiad annatod rhyngddynt.

Roedd materion eraill i'w nodi yn cynnwys sylwadau am y defnydd uwch o gynlluniau marcio i lywio'r ffordd y caiff cynnwys cyrsiau ei gyflwyno a'r anawsterau annatod y gall hyn ei achosi, wrth i'r addysgu a'r pwyslais gael ei gyfyngu i'r dasg yn hytrach na bod yr addysgu yn cwmpasu nodau ac amcanion y cymhwyster. Hefyd, mae rôl barnu cymharol yn y broses farcio yn anghyffredin hyd yma, ond o'i gyfuno â'r nodweddion allweddol a nodir uchod, gallai gynnig ddewis amgen cadarnhaol i'r modelau presennol.

Yn olaf, mae dyfodiad marcio ar-lein wedi arwain at rywfaint o oblygiadau ar gynlluniau marcio, o ran strwythur a chyflwyniad. Mae'n bwysig bod Cyrff Dyfarnu yn ystyried y ffordd orau o fanteisio ar y manteision logistaidd sy'n deillio o farcio ar-lein, ac ar yr un pryd yn cydnabod y cymhlethdodau ychwanegol a allai godi.

Roedd pob llinyn o'r gwaith ymchwil yn dangos cefnogaeth glir i ddatblygu canllawiau ymarferol pellach ar ddylunio a datblygu cynlluniau marcio.

3 Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau nad ydynt yn raddau, a'r system gymwysterau, yng Nghymru. Fel rhan o'i waith o adolygu cymwysterau, mae Cymwysterau Cymru yn gwerthuso ac yn cymeradwyo cymwysterau newydd i'w defnyddio mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yng Nghymru. Yn seiliedig ar y gwaith hwn hyd yma, mae Cymwysterau Cymru wedi dod i'r casgliad y byddai'r broses adolygu cymwysterau sy'n mynd rhagddi yn cael ei chefnogi gan ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar egwyddorion cyffredinol cynlluniau marcio effeithiol mewn cymwysterau sy'n seiliedig ar wybodaeth, ac y byddai'r canfyddiadau yn llywio'r gwaith o lunio canllaw arfer da.

Comisiynwyd AlphaPlus Consultancy i ymgymryd â'r prosiect hwn ar ran Cymwysterau Cymru.

4 Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r tri llinyn o ymchwil a ddefnyddir i lywio'r gwaith o ddatblygu canllaw arfer da ar ddylunio cynlluniau marcio. Dyma'r tri llinyn:

- Adolygiad llenyddiaeth
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid
- Grŵp ffocws gyda staff AlphaPlus.

4.1 Adolygiad Llenyddiaeth

Canolbwyntiodd yr adolygiad llenyddiaeth ar egwyddorion dylunio cynlluniau marcio effeithiol. Yn benodol, canolbwyntiodd ar y cwestiynau ymchwil:

1. *Beth mae llenyddiaeth academaidd yn ei ddweud wrthym am egwyddorion dylunio cynlluniau marcio da?*
2. *Pa rai o nodweddion y cynllun marcio sy'n cefnogi marcio cywir ac asesu dilys?*

Roedd yr ymchwil yn cynnwys llenyddiaeth o 2000 ac yn ddiweddarach, a gyhoeddwyd yn unrhyw awdurdodaeth ac a gyhoeddwyd yn Saesneg. Lle y bo'n bosibl, dewiswyd llenyddiaeth ymchwil a oedd yn canolbwyntio ar asesu pobl ifanc 14 i 19 oed, naill ai mewn addysg gyffredinol neu alwedigaethol.

Roedd yr adolygiad llenyddiaeth wedi dilyn y camau a nodir isod:

- Nodi ffynonellau/cronfeydd data addas, a sefydlu/mireinio termau chwilio perthnasol
- Pori drwy'r llenyddiaeth a llunio 'rhestr hir' o gyfeiriadau perthnasol
- Adolygu'r rhestr hir a'i mireinio i greu rhestr fer o erthyglau o ansawdd uchel
- Crynhoi'r llenyddiaeth gan ddefnyddio templed y cytunir arno
- Defnyddio'r crynodebau i ysgrifennu'r adolygiad llenyddiaeth.

Yn y pen draw, crëwyd 'rhestr hir' yn cynnwys 24 o erthyglau. Cafodd y rhain eu gwerthuso yn ôl pa mor uniongyrchol berthnasol oeddent, pa un a oeddent yn darparu gwybodaeth am ddylunio cynlluniau marcio, nodweddion cynlluniau marcio effeithiol a phynciau yn seiliedig ar wybodaeth, a pha un a oeddent yn seiliedig ar dystiolaeth o ansawdd uchel. O'r rhestr hir wreiddiol o ffynonellau, cafodd y llenyddiaeth fwyaf perthnasol ei dethol i greu rhestr fer o 12 o erthyglau, i'w hadolygu a'u crynhoi'n llawn.

4.2 Cyfweliadau â rhanddeiliaid

Darparwyd rhestr o randdeiliaid posibl i'w cynnwys yn y cyfweliadau gan Cymwysterau Cymru. Cafodd ei thrafod a'i mireinio i greu rhestr derfynol yn cynnwys:

- Uwch-arweinwyr, arbenigwyr pwnc ac ymchwilwyr o'r prif gyrff dyfarnu yng Nghymru a Lloegr
- Arbenigwyr pwnc sy'n ymwneud â'r gwaith o ddiwygio cymwysterau yng Nghymru
- Cynrychiolwyr o'r rheoleiddwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cysylltodd tîm AlphaPlus â'r rheini ar y rhestr i drefnu amser cyfleus. Y bwriad oedd cynnal cyfweliadau unigol lle bo hynny'n bosibl, ond rhoddwyd yr hyblygrwydd i gynnal cyfweliad grŵp ar gyfer sefydliadau a oedd yn darparu sawl aelod o staff.

Drafftiwyd rhaglen gyfweld led-strwythuredig a'i chytuno gyda Cymwysterau Cymru (Gweler Atodiad 1). Roedd yn cynnwys pwyntiau atgoffa yn ymwneud â'r materion canlynol:

- Egwyddorion cynllun marcio da
- Cynlluniau marcio ag arddulliau gwahanol
- Materion sy'n benodol i bynciau wrth ddylunio cynlluniau marcio
- Beth yr hoffent ei weld mewn canllaw ar gynlluniau marcio
- Yr amrywiaeth o'r mathau o eitemau ymateb a luniwyd i'w chwmpasu
- Y lefel ddisgwyliedig o ddibynadwyedd (marcio/ailfarcio).

Cafodd y cyfweliadau eu cynnal gan ddefnyddio'r rhaglen, wedi'i hamrywio rywfaint yn unol â diddordebau/arbenigedd penodol y cyfweleion. Parodd y cyfweliadau oddeutu 40 munud. Yn y diwedd, gwnaethom gynnal un cyfweliad grŵp (gyda phedwar unigolyn yn cymryd rhan) a 13 o gyfweliadau unigol.

4.3 Grŵp Ffocws AlphaPlus

Yn ogystal â'r data ffurfiol a ddisgrifiwyd uchod, roedd Cymwysterau Cymru yn awyddus i gael sylwadau gan yr uwch dîm yn AlphaPlus. Mae amryw aelodau o'r tîm wedi cynnal gwaith ymchwil a datblygu ar gynlluniau marcio yn y gorffennol, ac roedd hyn wedi'i gyfleu yn y cynnig ar gyfer y gwaith. Gofynnodd Cymwysterau Cymru am i AlphaPlus ddod o hyd i ffordd o gynnwys yr arbenigedd hwn yn y broses o gasglu data. Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda'r aelodau o'r tîm a oedd ar gael. Cafodd ei arwain gan arbenigwr cyswllt ac roedd yn cynnwys tri o Gyfarwyddwyr AlphaPlus.

Mae'r adroddiad sy'n dilyn yn crynhoi pob llinyn o'r broses o gasglu tystiolaeth ac yn tynnu canfyddiadau allweddol y gwahanol linynnau at ei gilydd yn yr adran Trafodaeth.

5 Crynodeb o'r Adolygiad Llenyddiaeth

Roedd cynsail cyffredin yn perthyn i'r llenyddiaeth a adolygwyd, sef: dylid mesur ehangder gwybodaeth neu allu rhywun ar sail ei gyrhaeddiad ac ni ddylai hynny gael ei gyfyngu gan ddiffygion yr arholiad na'r cynllun marcio cysylltiedig. Yn y cyd-destun hwn, mae'r cysyniad o lunio cynllun marcio "da" yn dibynnu ar ba mor hawdd ydyw i'w gymhwyso'n gyson ac yn glir at amrywiaeth o atebion, gan ganiatáu i farcwyr wahaniaethu rhwng ymatebion mewn cynyddrannau y cytunir arnynt.

"An effective rubric has a well-defined list of criteria for the test-takers to know what is expected of them and for the raters to be able to properly evaluate the responses... contains standards of excellence for the different

*levels of performance…(*and*)… has gradations of quality, or a scale, based on the degree to which the standard has been met." (*Ghalib a Hattami, 2015 t.226[1]*)*

Wrth wraidd y cysyniad hwn, mae'r broses o ragweld atebion, p'un a wneir hyn drwy:

- Mapio atebion yn helaeth ar draws "ystod canlyniadau" eang yn cynrychioli'r amrywiaeth o ymatebion a allai gael eu cynhyrchu, a'u crynhoi i ganolbwyntio ar yr atebion a ddisgwylir (Ahmed a Pollitt, 2011, Tisi et al, 2013)
- Darparu "atebion enghreifftiol" a chyfleu beth yw ymatebion gwael (Ahmed a Pollitt, 2011)
- Creu meini prawf penodol ar gyfer graddio ansawdd ymateb ar lefel fwy cyfannol (Ghalib a Hattami, 2015).

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth wedi'i bennu mewn rheoliadau ar gyfer dylunio cynlluniau marcio ac felly mae cynlluniau marcio wedi'u datblygu gan amrywiaeth o gyrff dyfarnu sy'n amrywio o ran eu harddull a'u hymagwedd. Mae'r rhain yn amrywio o gynlluniau atebion byr, hynod strwythuredig a diffiniol, i gynlluniau mwy penagored, cyfannol sy'n aml yn gysylltiedig â chwestiynau ag ymatebion mwy estynedig, ac yn aml iawn, cymysgedd o'r ddwy ymagwedd (Ofqual, 2014).

Amlygodd yr adolygiad llenyddiaeth gonsensws ei bod yn haws bod yn fanwl gywir ac yn gyson wrth ddefnyddio cynllun marcio penodol iawn, gydag uchafswm marciau is ac ar gyfer cwestiynau sydd wedi'u targedu at raddau cyrhaeddiad is (Tisi et al, 2013, Black et al, 2011, Ghalib a Hattami, 2015). Gallai datblygwyr felly ddod i'r casgliad y byddai'n well canolbwyntio ar y math hwn o gwestiwn a'r cynllun marcio cysylltiedig yn unig. Fodd bynnag, byddai gwneud hynny yn methu â rhoi sylw i'w pwynt sylfaenol y dylai natur cynllun marcio gael ei dewis mewn ymateb i'r deilliant y mae'n ceisio'i ddal, gan gynnwys cwmpasu cwestiynau o gymhlethdod priodol. Cafodd rhywfaint o dystiolaeth ei chyflwyno i awgrymu y byddai dull dadansoddol pur o farcio yn fwy dibynadwy na dull cyfannol (Tisi et al, 2013, Ghalib a Hattami, 2015). Fodd bynnag, o ran y pwynt sylfaenol hwn, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth glir i awgrymu bod y naill ddull na'r llall yn fwy dilys ar draws pob math o ddeilliant (AlphaPlus, 2014, Bramley, 2008, Ghalib a Hattami, 2015). Mewn geiriau eraill, mae'n iawn cydnabod y bydd anghenion gwahanol yn mynnu dulliau gwahanol o ddylunio cynlluniau marcio.

Gellir crynhoi'r farn ar ddilysrwydd cynllun marcio mewn tri chwestiwn. Sef, a yw'r cynllun marcio yn gwneud y canlynol:

- cefnogi asesiad o ddeilliannau bwriadedig y cwestiwn/cwestiynau
- rhoi cymorth i farcwyr, yn enwedig pan fyddant yn ymdrin ag atebion annisgwyl
- caniatáu ar gyfer ymateb cyson ymhlith y marcwyr.

Gan ymdrin â'r tri phwynt hyn yn eu tro, mae rhywfaint o gasgliadau ac awgrymiadau yn codi o'r adolygiad llenyddiaeth a allai gael eu defnyddio i gefnogi'r rheini sy'n datblygu cynlluniau marcio.

5.1 Cefnogi asesiad o'r deiliannau bwriadedig

Gwneir cyfeiriadau mynych yn llawer o'r llenyddiaeth at y ffaith nad yw o gymorth nac yn bosibl gwahanu'r broses o ddatblygu cynllun marcio yn gyfan gwbl oddi wrth y broses o ddatblygu'r papurau cwestiynau nac o ddiben a chynnwys y cymhwyster ei hun (AlphaPlus, 2014, Pinot de Moira, 2013, Christie et al, 2015). Yn wir, aiff y ddadl gam ymhellach: na ddylid penderfynu ar yr ymagwedd a ddefnyddir ar gyfer cynllun marcio nes ar ôl cadarnhau bod amcanion penodedig y cymhwyster yn glir a pha un a yw'r heriau a gyflwynir drwy'r cwestiynau

[1]Noder, darperir cyfeiriadau yn Atodiad 2.

yn adlewyrchu'r deilliannau gofynnol mewn gwirionedd. Dim ond bryd hynny y gellir llunio cynlluniau marcio sy'n gysylltiedig â'r deilliannau hynny (Ahmed a Pollitt, 2011, Christie et al, 2015).

Enghraifft syml o hyn yw datblygu cynllun marcio ar gyfer asesiad amlddewis, a all, ar yr olwg gyntaf, ymddangos yn dasg hawdd, ond sydd mewn gwirionedd yn gwbl ddibynnol ar bwyslais y cwestiynau ar yr amcanion a nodwyd a pha mor ddefnyddiol yw'r cwestiynau tynnu sylw wrth gynnal y pwyslais hwnnw (Ahmed a Pollitt, 2011). Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r cynllun marcio sicrhau bod ymateb myfyriwr yn cael ei werthuso yn nhermau pwyslais bwriadedig y cwestiwn yn hytrach na gwobrwyo gwybodaeth a dealltwriaeth fwy cyffredinol neu ei dechneg arholiad (Tisi et al, 2013).

Daw problemau yn fwy amlwg pan ymddengys nad yw datblygiad y cynllun marcio yn gydnaws â chanlyniad bwriadedig y cwestiynau. Dyma rai enghreifftiau o'r broblem hon (Tisi et al, 2013, Ahmed a Pollitt, 2011, AlphaPlus, 2014, Ofqual, 2014):

1. Pan fydd cwestiwn yn gofyn i fyfyriwr egluro cysyniad neu set o ddata ond bod y cynllun marcio yn seiliedig ar gydnabod marciau cynnwys ar sail pwyntiau yn hytrach na'r eglurhad y gellir ei ddangos
2. Pan fydd anghysondeb yn lefel y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol gan farciau cwestiynau a chynlluniau marcio, er enghraifft, os cynigir pwyntiau bonws ychwanegol am faterion nad yw'r cwestiwn yn cyfeirio atynt.

Ceir consensws yn y llenyddiaeth fod: nifer a dosbarthiad y lefelau a'r marciau mewn cynllun marcio yn cael effaith ar gysondeb y broses o ddyrannu marciau. Mae'r consensws hwn yn cyfeirio at ddau faes cyffredin:

1. Gallu marcwyr i ddeall yn glir bwysoliad ymatebion mewn perthynas â lefelau/bandiau marciau unigol (Pinot de Moira, 2011)
2. Gallu marcwyr i gynnig yr ystod gyfan o farciau ar gyfer cwestiwn, yn enwedig ym mhen uchaf y cwestiynau tariff uwch.

Yn y ddau achos, caiff datblygwyr eu cyfeirio gyntaf at bwysigrwydd (pwysoliad) yr eitem yn nhermau deilliannau'r cymhwyster, ac yna at y graddau y gellir disgrifio'r lefelau a'r marciau unigol yn unigryw a'u gwahanaiethu (Black et al, 2011, Bramley, 2008, Ofqual, 2014, Pinot de Moira, 2013).

Mater eilaidd o ran nifer a dosbarthiad y lefelau sydd wedi cael cryn dipyn o sylw yw bod eitem tariff isel yn fwy tebygol o lawer o gael ei marcio'n gywir nag un â thariff uwch gan fod yn rhaid i'r marciwr wneud llai o benderfynidau (Bramley, 2008, Black et al, 2011). Mae eitemau ag ystod marciau uwch yn debygol o fod â llai o ymatebion wedi'u categoreiddio yn y naill pegwn a'r llall, a all olygu bod marcio'r ymatebion hyn yn llai dibynadwy.

5.2 Cefnogi marcwyr i ddod i gasgliadau

Mae angen cael cydbwysedd rhwng dylunio cynllun marcio i gwmpasu'r deilliannau a ragdybir a dylunio cynllun marcio nad yw'n cyfyngu atebion nac yn pennu'r deilliannau (Tisi et al, 2013, Ahmed a Pollitt, 2011, Black et al, 2011).

> *"…the better the overlap between the observed and expected outcome space…the more reliable the marking will be."* (Tisi et al, 2013 t.24)

Craidd y mater yw dylunio cynlluniau marcio sy'n cynnwys digon o fanylion i nodi'n glir pa ddeilliant a ddisgwylir a sut y dylid dyfarnu marciau'n gyson i wahaniaethu'n deg rhwng myfyrwyr, ac ar yr un pryd, aros yn ddigon cyffredinol i gwmpasu ystod o ymatebion (Christie et al, 2015, Ofqual, 2014, Pinot de Moira, 2013).

> *"Marking reliability was higher, …when the band descriptions were generic rather than including indicative content specific to the particular item."* (Pinot de Moira, 2013 t.8*)*

Dylid nodi'n glir beth sy'n ofynnol er mwyn i ymateb gael ei gategoreiddio i ddisgrifiad un band neu'r llall. Lle na chaiff ei nodi'n glir, mae'n bosibl y gallai hyn awgrymu bod gormod o fandiau i ganiatáu ar gyfer gwahaniaethu rhyngddynt, neu nad yw'r termau a ddefnyddir o fewn y bandiau yn ddigon clir i roi canllaw cyson i farcwyr. Roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch ai tacsonomi penodol oedd y ffordd orau o reoli termau a ddefnyddir mewn bandiau marcio neu a fyddai hyn yn cyflwyno rheoleiddio diangen. Fel canllaw defnyddiol, os nad yw'n bosibl rhoi diffiniad clir a gwahanol o'r termau a ddefnyddir yn y disgrifiadau lefel/band marciau, gallai hyn awgrymu bod y bandiau'n gorgyffwrdd neu y dylid adolygu'r termau (Bramley, 2008, Ofqual, 2014).

> *"Are the standards' descriptors explicit, devoid of subjective words, and positively worded in terms of what students must do?"* (Christie et al, 2015, t.30)

Un mater dadleuol y mae'r llenyddiaeth yn ymdrin ag ef yw darparu manylion am ymatebion gwael yn ogystal ag ymatebion da/enghreifftiol. Deuir i'r casgliad, yn enwedig pan ddisgwylir deilliannau lluosog, ei bod yn ddefnyddiol helpu marcwyr i ddeall yn well sut i wahaniaethu rhwng ymatebion, ond gall hyn orlwytho marcwyr â gwybodaeth a chynyddu'r baich gwybyddol a roddir arnynt; mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol i'r cynllun marcio ddiffinio'r egwyddor gyffredinol na rhestru ymatebion lluosog posibl. Dylid bod yn ofalus hefyd nad yw diffinio atebion yn ormodol yn annog marcwyr i farcio'n negyddol. (Ahmed a Pollitt, 2011, Bramley, 2008, AlphaPlus, 2014)

> *"For the points-based items, the presence of qualifications, restrictions and variants seemed to increase the level of agreement very slightly…For the objective items [items with a single correct answer], on the other hand, the presence of qualifications, restrictions and variants seemed to reduce the level of agreement."* (Bramley, 2008, t.12)

Mae pwynt cysylltiedig yn ymwneud â gwasgariad marciau ar draws bandiau. Roedd y dystiolaeth ystadegol yn amhendant i raddau helaeth ond roedd yn tueddu ryw ychydig tuag at yr awgrym bod marcio yn fwy dibynadwy os caiff marciau eu gwasgaru'n gyfartal ar draws y bandiau (Pinot de Moira, 2011, Pinot de Moira, 2013). Mae'n bosibl bod hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y dull hwn yn symlach a'i bod haws i farcwyr ymdrin ag ef.

Yn hynny o beth, daeth sawl astudiaeth i'r casgliad mai un o'r camau allweddol wrth ddatblygu cynllun marcio "da" oedd cadw'r cynllun marcio ei hun, a'r canllawiau i farcwyr, yn glir, yn syml, yn foel ac yn gyson. Ymddengys bod cydberthynas uniongyrchol rhwng galw gwybyddol uwch ar farcwyr, e.e. drwy opsiynau lluosog i gronni marciau neu anghysondeb yn y dull marcio ar draws cynllun marcio cyfan, ac anghysondeb uwch yn y gwaith marcio (Child et al, 2015, AlphaPlus, 2014, Bramley, 2008, Pinot de Moira, 2013).

> *"…visual comparison of the generic and specific levels-based mark schemes reveals … (that) … Generic mark schemes are often simple, neat and uncluttered. They are the same in format throughout the unit and, therefore, require less cognitive demand of the user. Levels-based mark schemes which include indicative content in the bands tend to be lengthier and, by definition, differ across the unit."* (Pinot de Moira, 2013 t.8)

5.3 Cefnogi cysondeb yr ymateb ymhlith marcwyr

Mae'n bwysig cydnabod mai marcio ar sail lefelau, boed yn ddadansoddol neu'n gyfannol, sy'n cyflwyno'r her anoddaf yn nhermau rhoi canllawiau i farcwyr ac annog cysondeb. Ymddengys bod hyn yn deillio'n bennaf o'r ffaith ei fod yn aml yn gysylltiedig â'r cwestiynau hynny y derbynnir mai nhw yw'r anoddaf i'w marcio (tariff uchel, agored/dirwystr, y lle a'r amser mwyaf i ymateb, h.y. po hiraf yr ateb, y mwyaf sydd i'w marciwr ei werthuso yn nhermau'r cynllun marcio) (Ahmed a Pollitt, 2011, Black et al, 2011, Bramley, 2008).

> *"…it is a higher quality of response rather than a greater item difficulty which lowers reliability"* (Pinot de Moira, 2013)

> *"…some high-performing students could receive lower marks because they are more likely to give unexpected answers the mark scheme does not capture"* (Ofqual, 2014, t.38)

Fel yr amlygir yn adran agoriadol yr adolygiad hwn, gall penderfynu defnyddio llai ar y math hwn o gwestiwn gael effaith sylweddol ar y cyfle i fyfyrwyr arddangos prosesau meddwl mwy creadigol heb beryglu'r gallu i arddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth (Lille a Romero, 2015).

> *"… the use of questions with longer responses is an important part of the assessment process and so an educational system may choose to accept the lower levels of reliability."* (Tisi et al, 2013 t.2)

Hyd yn oed pan fydd cynlluniau marcio a chanllawiau ar waith, gall dull mwy agored, cyfannol o farcio gael ei ddylanwadu'n fwy gan "farn arbenigol" marciwr na chynlluniau marcio mwy cyfyngedig. Er enghraifft, gallai marcwyr ddod i'r un casgliad ar farc terfynol, ond pan ofynnir iddynt gyfiawnhau eu canfyddiadau, mae'n bosibl bod ganddynt resymau gwahanol iawn. Pan gaiff hyn ei ategu gan bwyslais ar ansawdd a pherthnasedd yr ymateb a gwahaniaethau dilys mewn barn arbenigol, tybir bod hyn yn dderbyniol (Black et al, 2011), ond lle bo hyn o ganlyniad i ddiffyg profiad, diffyg canllawiau neu ganllawiau gwael yn y cynllun marcio, er enghraifft yn ymwneud â fformiwlâu/ymadroddion y myfyrwyr eu hunain, nid yw'r anghysondeb yn dderbyniol (Black et al, 2011, Tisi et al, 2013). Yr hyn i'w nodi yn y casgliad hwn yw y dylid datblygu cynlluniau marcio mewn ffordd sy'n cefnogi'r enwadur lleiaf o ran marcwyr, e.e. y marciwr newydd/dibrofiad.

Dylid rhoi ystyriaeth i ddeall ac adlewyrchu'r prosesau a ddilynir gan farcwyr wrth ddylunio cynllun marcio. Mae'r pwnc hwn yn ddigon eang i fod yn destun adolygiad yn ei rinwedd ei hun, ond gellir ei grynhoi drwy nodi bod marcwyr yn defnyddio pum strategaeth: cyfateb, sganio, gwerthuso, craffu a dim ymateb, i wirio'r hyn maent yn ei weld mewn ateb yn erbyn y model meddyliol maent wedi'i ffurfio o'r cynllun marcio, ac yn aml byddant yn cylchredeg y broses sawl gwaith cyn dod i gasgliad am y marc. (Suto a Greatorex (2008), AlphaPlus, 2014).

Effaith hyn yw po fwyaf agored yw'r ymateb, y mwyaf cymhleth fydd y broses o farcio eitem (Bramley, 2008).

Mae'r ymchwil a gwmpesir gan yr adolygiad hwn hefyd yn awgrymu y gall newidiadau syml i'r ffordd y caiff cynlluniau marcio a chanllawiau cysylltiedig eu cyflwyno eu gwneud yn haws eu defnyddio ac felly cynyddu eu dibynadwyedd a'u cysondeb (Child et al, 2015, Bramley, 2008, Ofqual, 2014, Pinot de Moira, 2013). Roedd y rhain yn cynnwys:

1. Trefn cyflwyno'r lefelau: yr isaf yn gyntaf neu'r uchaf yn gyntaf - gall y drefn effeithio ar b'un a yw'r marciwr yn marcio'n negyddol neu'n gadarnhaol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth[2] i awgrymu bod cynlluniau marcio yn fwy dibynadwy pan gaiff y marciau eu disgrifio mewn trefn esgynnol (Pinot de Moira, 2013)
2. Gall cyflwyno'r lefelau ar fformat grid i wahaniaethu rhwng yr Amcanion Asesu a gaiff eu hasesu fod yn ddefnyddiol er mwyn egluro'r bandiau gwahanol, ond mae'n peri risg o fanylu'n ormodol a chreu gormod o gymhlethdod wrth i nifer y categorïau gynyddu (Pinot de Moira, 2013).
3. Ceir rhywfaint o dystiolaeth y gall newidiadau bach i fformat y cynllun marcio liniaru diffyg profiad, er enghraifft drwy newid lleoliad canllawiau sy'n ymwneud â chwestiynau penodol, rhoi termau allweddol mewn print bras, a fformatio'r tudalennu (Child et al, 2015, Christie et al, 2015)

[2]Roedd y canfyddiadau'n croesi'r trothwy arwyddocâd o bump y cant, ond dim ond o drwch blewyn.

4. Codwyd pwyntiau eraill am ddyluniad y papurau cwestiynau, e.e. dylanwad y bwlch a adewir ar gyfer ateb ac felly faint o'r sgript y byddai angen i'r marciwr ei adolygu; gwelwyd bod mwy o gytundeb ymhlith marcwyr am ymatebion i ddiagramau a thagiau ac ati, nag ymatebion ar ffurf brawddegau llawn. Ystyrir bod y pwyntiau hyn y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, ond dylid rhoi sylw iddynt yn ystod y broses ddatblygu (Bramley, 2008).

Mae u pwynt penodol a wnaed ar gynnwys y cynlluniau marcio yn ymwneud ag asesu ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig. Nid oedd llawer o'r astudiaethau yn mynd i'r afael â hyn, ond lle y soniwyd amdano, daethpwyd i'r casgliad y dylid ei asesu fel deilliant ar wahân ar gyfer y mwyafrif o bynciau sy'n canolbwyntio ar gynnwys, yn hytrach nag o fewn yr ymatebion i gwestiynau (Pinot de Moira, 2013, Ahmed a Pollitt, 2011). Y rheswm dros hyn yw nad yw'r Amcanion Asesu o fewn pwnc braidd byth yn cynnwys ansawdd cyfathrebu, hyd yn oed mewn ffordd oblygedig. O ganlyniad, mae cywirdeb y marcio yn canolbwyntio ar sgil neu faes gwybodaeth penodol a allai gael ei effeithio os yw marcwyr yn gorfod cynnwys ansawdd y cyfathrebu neu'r sillafu, atalnodi neu ramadeg yn y marc.

Roedd sawl un o'r adroddiadau yn ystyried pwysigrwydd y cyfarfodydd safoni a'r prosesau sicrhau ansawdd sy'n ategu unrhyw gynllun marcio. Y consensws yw bod y dulliau hyn yn cael eu hystyried yn hanfodol wrth fireinio a gwella'r cynllun marcio yn enwedig yn ystod y camau cynnar yn y broses farcio, cyn iddynt gael eu defnyddio'n ehangach (AlphaPlus, 2014, Ofqual, 2014).

Nodwyd hefyd gyfeiriadau at ddefnyddio cynlluniau marcio i lywio'r broses o gyflwyno cyrsiau a gall hyn fod yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno naill ai i gyfyngu neu i ganolbwyntio ar un agwedd ar gynnwys y cymhwyster (Lille a Romero, 2015).

> *"…for students, assessment criteria are integral to their understanding of tasks and success in undertaking them"* (Christie et al, 2015 t.27)

Er y cydnabyddir nad hwn yw prif ddiben cynlluniau marcio, dylai datblygwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth greu cynllun marcio ac yn enwedig wrth ystyried defnyddio cynnwys dangosol/enghreifftiol ac wrth sicrhau bod eglurder a gwahaniaeth clir rhwng bandiau marcio.

I gloi'r casgliadau o'r llenyddiaeth, ceir consensws ar draws y ffynonellau mai ychydig o ymchwil a wnaed sy'n canolbwyntio ar ddylunio cynlluniau marcio yn unig ac y byddai atgyfnerthu canllawiau ar lunio cynlluniau marcio yn werthfawr i'r rheini sy'n eu llunio a'u barnu (AlphaPlus, 2014, Ofqual, 2014, Pinot de Moira, 2013).

6 Crynodeb o'r Cyfweliadau

Roedd y cyfweleion yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd, yn cwmpasu gwahanol arbenigeddau pwnc, rolau a phrofiad, ond cafwyd lefel galonogol o gonsensws yn eu hymatebion. Mae'r crynodeb hwn yn dilyn strwythur y rhaglen gyfweld yn fras (gweler Atodiad 2). Fodd bynnag, codwyd sawl pwynt a oedd yn cwmpasu cynlluniau marcio o bob math, gan ddod, i bob pwrpas, yn egwyddorion o arfer da. Bydd y ffordd y mae'r egwyddorion hyn yn cymhwyso'n fanwl at wahanol fathau o eitemau/cynlluniau marcio yn cael eu disgrifio lle y bônt yn berthnasol, ond mae'n ddefnyddiol tynnu sylw at yr egwyddorion.

Dylid nodi bod y cyfweleion yn gyfarwydd iawn â llawer o'r llenyddiaeth, neu o leiaf â llawer o'r canfyddiadau a'r argymhellion a oedd yn deillio ohoni, a allai egluro'r lefel hon o gysondeb i ryw raddau.

Yn gyntaf, mae'n hanfodol bod yr eitem a'r cynllun marcio yn gweithio gyda'i gilydd, gan gael eu datblygu ar yr un pryd a dylid sicrhau'n rheolaidd eu bod yn parhau'n gyson â'i gilydd. Yn wir, gorau oll o bosibl os ystyrir bod yr eitem yn bont rhwng y fanyleb ac ymddygiad y myfyriwr (a grynhoir yn y cynllun marcio). Pan gytunir bod y cynllun marcio yn cynrychioli agwedd benodol ar wybodaeth, dealltwriaeth neu gymhwyso o fewn y fanyleb, yna mae angen addasu'r eitem er mwyn sicrhau y bydd yn esgor ar y perfformiad y dymunir ei weld. Mewn geiriau eraill, y cynllun marcio sy'n dod gyntaf.

Estyniad o hyn yw ei bod yn hanfodol y ceir eglurder diamod ynghylch pa agwedd ar y fanyleb y mae eitem (neu yn hytrach, ei chynllun marcio) yn ei thargedu. Yn ogystal â'i gwneud yn haws i sicrhau yr ymdrinnir â'r agwedd hon, mae hyn yn helpu i cadarnhau'r egwyddor sy'n sail i'r penderfyniadau i ddyfarnu credydau. Mae hwn yn bwynt arall y cytunwyd arno: mae'r dasg o farcio yn waith beichus yn wybyddol ar y gorau, felly mae eglurder yn bwysicach nag ehangder. Yn ôl Alastair Pollitt, mae'n hanfodol bod geiriad yr eitem yn ddigon llym i reoli'r ystod canlyniadau er mwyn ei gwneud yn hawdd barnu pa un a yw ymateb yn mynd i'r afael â'r egwyddor y tu ôl i'r eitem ai peidio. Er mwyn hwyluso hyn, ac er mwyn creu dealltwriaeth a rennir, argymhellodd llawer o'r cyfweleion ddatgan yn benodol pa Amcan Asesu (neu ran o Amcan Asesu) y mae pob eitem yn mynd i'r afael ag ef.

Roeddent hefyd yn unfryd eu barn na ddylai cynllun marciau gael ei ystyried ar wahân, ond fel rhan o'r broses safoni gyfan, gan gynnwys y cyfarfod safoni lle mae marcwyr yn gweithio ar sgriptiau enghreifftiol sy'n galluogi'r Uwch Arholwr i ddehongli'r cynllun marcio ar sail ymatebion go iawn. Cymerir gofal i sicrhau bod y gwaith enghreifftiol yn cwmpasu'r ystod gyfan o ymatebion, gan gynnwys, cyn belled ag y bo'n bosibl, yr ymatebion annisgwyl. Ar yr adeg hon, caiff marcwyr gyfle i godi unrhyw ymatebion y maent wedi'u gweld yn eu gwaith rhagarweiniol sydd wedi bod yn anodd eu hasesu. Mae'n eithaf cyffredin i'r cynllun marcio gael ei ddiwygio ar y cam hwn.

Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod cyhoeddi cynlluniau marcio yn newid sylweddol i'r system. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys yr elfennau hyfforddi y mae marcwyr yn eu cael, gan gynyddu'r posibilrwydd y bydd pobl yn eu camddeall. (Awgrymwyd y gellid lliniaru'r risg hon a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system yn gyffredinol pe bai deunyddiau enghreifftiol anodedig wedi'u marcio yn cael eu cyhoeddi gyda'r cynllun marcio cyhoeddedig, er y byddai hyn yn cynyddu'r baich ar gyrff dyfarnu). Cytunwyd, serch hyn, na ddylid caniatáu i'r ffaith eu bod yn cael eu cyhoeddi amharu ar brif swyddogaeth cynllun marcio, sef fel prif sbardun i farcio cyson.

6.1 Llunio cynlluniau marcio ar gyfer eitemau atebion byr

Ceir sawl math o eitem atebion byr mewn gwirionedd, ac mae angen fordd wahanol o farcio pob un ohonynt. Fodd bynnag, y tu ôl i bob un o'r rhain mae'r angen i sicrhau bod yr eitem yn egluro'r hyn sy'n ddisgwyliedig yn glir. Yn benodol, mae'n bwysig sicrhau bod y geiriau gorchymyn yn cael eu defnyddio'n gyson (o leiaf o fewn pwnc) ac yn unol â disgwyliadau iaith naturiol. Er enghraifft, sicrhau bod eitem sy'n gofyn m ddisgrifiad yn disgwyl disgrifiad; a bod un sy'n gofyn am eglurhad yn disgwyl eglurhad.

6.1.1 Eitemau (un marc fel arfer er bod eitem yn gallu cynnwys sawl pwynt o'r fath) sydd angen ateb cywir neu anghywir penodol

Yr hyn sydd ei angen yma yw manyleb glir o'r ateb cywir, ynghyd â datganiad yr un mor glir o unrhyw oddefiant, er enghraifft, p'un a ganiateir camsillafu neu ba radd o gywirdeb sydd ei hangen ar gyfer gwerth rhifyddol neu p'un a oedd angen nodi unedau.

6.1.2 Eitemau sydd angen ateb mwy llawn, megis diffiniad neu eglurhad o ffenomen benodol mewn un neu ddwy frawddeg efallai, neu enghreifftiau o ffenomen benodol

Yn y sefyllfa hon, mae'n rhaid i'r cynllun ddangos yr ateb cywir unwaith eto (y diffiniad penodol efallai, gan nodi'n glir pa elfennau ynddo sy'n haeddu cael eu gwobrwyo) ynghyd â datganiad clir o sut i ymdrin â'r atebion (neu'r mwyafrif ohonynt) na fyddant yn cyfateb yn unol â'r diffiniad. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys penderfynu pa un a yw'r ymateb yn cyfleu'r cysyniad - neu'r rhannau ohono a grynhoir yn y dadansoddiad o'r marciau. Agwedd benodol ar eitemau o'r fath yw y bydd nifer y ffynonellau a fyddai'n esgor ar farc posibl yn aml yn uwch na nifer y marciau sydd ar gael: mae hyn yn rhesymol, ond mae'n bwysig nad yw'r nifer hon yn uwch o lawer na nifer y marciau sydd ar gael. Mae dau reswm dros hyn: yn gyntaf, mae nifer fawr iawn o atebion derbyniol yn debygol o effeithio ar ba mor hawdd yw'r eitem ac, yn ôl pob tebyg, y broses o wahaniaethu o ran yr eitem. Yn ail, po fwyaf y nifer o atebion posibl, yr anoddaf yw'r broses gyfatebu i'r marciwr.

Mae'r math hwn o eitem hefyd yn cyflwyno nodwedd benodol lle mae'r ymagwedd i'w gweld yn mynd yn groes i'r egwyddor o farcio cadarnhaol. Yn aml bydd ateb myfyriwr yn cynnwys deunydd diangen neu ddeunydd sy'n dangos yn glir nad yw'n deall y cysyniad, er enghraifft drwy wrth-ddweud rhywbeth a nodwyd eisoes. O ganlyniad, mae angen cynnwys dau fath o gyfarwyddyd yn y cynllun marcio. Mae'r cyntaf yn ymdrin â gwybodaeth 'niwtral' nad yw'n ennill credyd ond nad yw'n effeithio ar gywirdeb ymateb. Er enghraifft, gall ymateb ymdrin yn rhy fanwl o lawer â phwynt penodol, gan olygu y rhoddir y credyd llawn ar gyfer y pwynt ond na roddir unrhyw gredyd ychwanegol am y deunydd diangen. Mae'r ail yn ymdrin â sefyllfa lle mae'r deunydd ychwanegol yn dangos diffyg dealltwriaeth wirioneddol o'r pwnc (efallai drwy wrth-ddweud rhywbeth sydd eisoes wedi'i nodi) ac mewn sefyllfa o'r fath, mae'r ymagwedd gyffredinol yn pennu na ddylid rhoi credyd hyd yn oed am y deunydd cywir.

Yn yr un modd, mewn rhai pynciau, ni roddir marciau i ymatebion sy'n cynnwys dyfyniadau hirfaith o ddetholiad sy'n digwydd cynnwys y wybodaeth y gofynnwyd amdani, nac i'r rheini sy'n dyfynnu'n union pan fydd y cwestiwn yn gofyn i'r myfyriwr ddefnyddio ei eiriau ei hunan, neu i'r gwrthwyneb. Yma, mae'n bwysig sicrhau bod geiriau amgen digon manwl ar gael i'r geiriau yn y detholiad er mwyn caniatáu iddynt gael eu haralleirio.

6.1.3 Eitemau sy'n mynnu ymatebion mwy llawn (hyd at 10 o farciau)

Yma, gall tair ymagwedd tuag at lunio'r cynllun marcio fod yn ddilys gan ddibynnu ar union natur y dasg. Lle bo eitem yn canolbwyntio ar wybodaeth yn bennaf, er enghraifft, disgrifio prif gamau proses, gellir defnyddio dull sy'n seiliedig ar bwyntiau. Yn y sefyllfa hon, mae'n rhaid i'r cynllun marcio ei gwneud yn glir, fel ym mhob achos, ar sail pa egwyddor y caiff credyd ei ddyfarnu, wedi'i dilyn gan y pwyntiau y gellir eu dyfarnu (a all gynnwys cyfuniadau sydd wedi'u gwahardd, h.y. lle bo'r ddau bwynt yn dderbyniol, ond eu bod ond yn cyfrif am un pwynt os ydynt yn ymddangos gyda'i gilydd) ac unrhyw waharddiadau allweddol.

Mae'n hawdd gweld sut y gallai ymagwedd o'r fath fynd yn gymhleth yn gyflym ac arwain at wallau, gan ei bod yn cynnwys cyfres o brosesau mecanyddol ynghyd â llawer o fân benderfyniadau llunio barn. Ceir tystiolaeth ymchwil fod y dull yn fwy cywir na lefelau ymateb ar gyfer eitemau sy'n gymharol isel o ran eu tariff, ond aiff yn llai cywir wrth i'r tariff gynyddu. Dylid nodi hefyd fod y gwahaniaeth yn y marc a ddyfernir gan ddau farciwr sy'n defnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar bwyntiau yn wallau marcwyr, sy'n deillio o fethiant i wobrwyo pwynt dilys neu wobrwyo pwynt nad yw'n ddilys; tra derbynnir yn gyffredinol bod marciau gwahanol a ddyfernir wrth ddefnyddio cynllun lefelau ymateb yn gallu fod yn ganlyniad i wahaniaeth teg mewn barn broffesiynol.

Y dewis amgen arferol yw defnyddio cynllun lefelau ymateb, yn enwedig lle mae'r eitem yn gofyn am ddadansoddiad neu werthusiad. Bydd hyn fel arfer yn canolbwyntio'n fanwl ar y sgil a dargedir - sgil/Amcan Asesu unigol yn ddelfrydol, gan fod hyn yn gwella'r ffocws (yr egwyddor, unwaith eto) - ac efallai'n wir y bydd yn defnyddio cynnwys dangosol yn y disgrifiadau band. Y rheswm dros hyn yw bod y lefel o werthuso pwnc penodol a ddiffinir yn llym yn debygol o fod yn rhagweladwy yn nhermau'r pwyntiau a drafodir, yn ogystal â'r sgil werthuso sy'n cael ei arddangos. Fodd bynnag, mae risg y gallai'r cynnwys dangosol hwn gael ei ddehongli fel deunydd gofynnol, gan arwain felly at wallau marcio.

Ymagwedd hybrid yw'r drydedd. Gyda'r dull hwn, caiff rhai o'r marciau sydd ar gael eu dyfarnu ar sail pwyntiau, gyda'r gweddill yn cael eu dyfarnu i wobrwyo ansawdd yr ymateb. Defnyddir yr ymagwedd hon mewn pynciau gwyddoniaeth a phynciau eraill sydd â chynnwys gwybodaeth uchel.

6.1.4 Sut y dylai cynllun marcio ymdrin ag atebion annisgwyl?

Trafodwyd dau brif bwynt o ran atebion annisgwyl, y tu hwnt i geisio cwmpasu cynifer â phosibl cyn y marcio gweithredol drwy, er enghraifft, y cyfarfod safoni. Y cyntaf oedd mai'r prif ddull oedd drwy annog marcwyr i gyfeirio atebion problematig at uwch farciwr neu arweinydd tîm. Nodwyd bod y broses hon yn llawer mwy effeithiol ac effeithlon gyda marcio ar-lein, gan fod hyn yn caniatáu adborth a deialog ar unwaith, bron. Yr ail

oedd y dylai'r broses o ddatblygu papurau cwestiynau sicrhau bod pwyslais digon llym yn yr eitemau a'u bod wedi'u geirio'n glir fel bod y myfyrwyr yn gwybod yn union beth y disgwylir iddynt ei wneud, gan leihau'r annisgwyl felly.

6.1.5 Beth yw rôl sgriptiau enghreifftiol?

Cytunwyd yn ddiwahân, bron, fod sgriptiau enghreifftiol priodol yn adnodd hanfodol i egluro'r cynllun marcio. Roedd hyn yn rhoi pwyslais sylweddol ar y broses o ddewis y gwahanol gategorïau o sgriptiau i'w defnyddio ar gyfer safoni, sy'n broses na cheir llawer o amser i'w chwblhau. Roedd yn bwysig cwmpasu'r ystod gyfan o farciau (mae'n arbennig o bwysig i roi marciau llawn ar gyfer cwestiynau tariff isel, gan fod risg ddifrifol o gapio'r marciau yn gyffredinol) a, chyn belled â'i bod yn bosibl, rhai o'r ffyrdd annisgwyl o ymateb. Roedd pawb yn gytûn y dylent fod yn ymatebion go iawn gan fyfyrwyr ac y dylid osgoi atebion enghreifftiol.

6.1.6 Beth yw rôl cynnwys dangosol?

Fel y nodwyd eisoes, mae cynnwys dangosol yn rhoi syniad defnyddiol o'r hyn sydd gan y gosodwr mewn golwg fel ymateb dilys i dasg. Mae hyn yn bwysig, yn enwedig yn gynnar yn y broses ddatblygu, lle mae'n gyfle i wneud yn siŵr bod y berthynas rhwng y dasg a'r cynllun marcio yn gwneud synnwyr. Mae rhoi syniad o'r math o gynnwys y mae disgwyl i dasg esgor arno, yn ogystal â'r sgiliau sydd eu hangen yn galluogi'r gosodwr i ddangos ei bod yn addas at ei diben. Mae hefyd yn bwysig o ran sicrhau bod marcwyr, yn enwedig marcwyr dibrofiad neu ddihyder yn deall pwrpas y cwestiwn, gan wella'r ddealltwriaeth o'r hyn sy'n berthnasol.

Fodd bynnag, mae cynnwys dangosol yn peri dwy risg allweddol. Y gyntaf yw ei bod yn hawdd darparu gormod o gynnwys o'r fath, gan foddi'r sgiliau y mae'r cwestiwn wedi'i ddylunio i'w profi. Yr hyn sy'n allweddol yw'r term 'dangosol': nid yw'n angenrheidiol nac yn ddymunol ceisio darparu rhestr o'r holl wybodaeth a fydd yn codi am bwnc i arbenigwr pwnc. Mewn gwirionedd, os yw'n anodd osgoi rhoi llawer iawn o gynnwys dangosol ar gyfer cwestiwn, efallai bod hynny'n arwydd bod diffyg ffocws yn y dasg ei hun. Mae hwn yn debygol o fod yn bryder penodol mewn cwestiynau tariff isel, gan ei fod yn awgrymu nad yw'r ystod canlyniadau wedi'i diffinio'n ddigonol.

Yr ail risg, yn enwedig lle bo'r gosodwr wedi ceisio sicrhau bod y cynnwys dangosol mor gynhwysfawr â phosibl, yw yr ystyrir mai cynnwys gofynnol ydyw yn hytrach na chynnwys dangosol. Mae hyn yn debygol o gael effaith gyfyngol ar y marciau a ddyfernir, gan na fydd myfyrwyr yn darparu atebion a fydd yn cwmpasu ystod gyfan y cynnwys, a gallai unrhyw gynnwys gwerthfawr ond annisgwyl gael ei ddiystyru.

6.2 Llunio cynlluniau marcio ar gyfer eitemau sy'n gofyn am atebion estynedig

Roedd pob cyfwelai o blaid defnyddio cynlluniau lefel ymateb, rhai dadansoddol yn bennaf, ar gyfer eitemau sy'n gofyn am atebion estynedig. Ar yr un pryd, codwyd nifer o faterion a ddisgrifir isod.

Efallai mai'r mater mwyaf cyffredin oedd y geiriau ansoddol a ddefnyddir yn y disgrifiadau lefel. Mae'n bwysig bod y rhain mor gyson â phosibl ag iaith naturiol (fel nad oes lle i ddadlau ynghylch yr hierarchaeth ar draws y bandiau marcio). Mae'n bwysig hefyd fod ystyr y geiriau hyn mor glir â phosibl. Gwendid arbennig yn y maes hwn yw pan ddisgrifir camau'n fras iawn, 'yn gwneud ychydig o (rywbeth)', 'yn gwneud ychydig mwy', 'yn gwneud rhywfaint' ac ati, ac mae'n bwysig bod yn ofalus i osgoi'r llwybr hwn.

Ystyriwyd bod y dull dadansoddol yn cynnig manteision damcaniaethol a thechnegol felly. Ar y naill law, mae'n rheoli baich gwybyddol y broses farcio drwy fynnu cyfres o ddyfarniadau ar wahân. Mae hefyd yn sicrhau bod y credyd a ddyfernir yn adlewyrchu'r pwysoliad bwriadedig ar draws yr Amcanion Asesu fel y nodir yn y fanyleb. (yn ddiddorol digon, awgrymwyd bod un fanyleb wedi dewis dull cyfannol yn arbennig er mwyn osgoi rhoi mwy o bwysoliad i Amcan Asesu nag y bwriedir, gan arwain at brosesau dysgu ac addysgu gwael). Ar y llaw arall, mae'n caniatáu ar gyfer disgrifiadau lefel â mwy o ffocws, gan ymdrin ag un sgil ar y tro. Mae hefyd yn rheoli

nifer y marciau a ddyfernir ar gyfer pob Amcan Asesu ac felly o fewn pob lefel, gan olygu bod y broses yn haws ei rheoli a lleihau'r potensial ar gyfer anghytuno.

Yr hyn nad yw'r cynlluniau dadansoddol yn ei wneud o reidrwydd yw caniatáu ar gyfer atebion anghytbwys, yn enwedig os yw'r ateb wedi'i ogwyddo tuag at sgiliau uwch megis dadansoddi a gwerthuso, gyda'r wybodaeth yn ymhlyg yn hytrach nag wedi'i heitemeiddio. Gall yr ymagwedd gyfannol ganiatáu ar gyfer hyn. Fodd bynnag, os ceir ymdeimlad o anghyseinedd yn rheolaidd rhwng y marc a enillir drwy gynllun dadansoddol a'r argraff gyffredinol o ansawdd y gwaith, gallai fod yn well ailystyried y ffordd y caiff yr elfennau amrywiol eu pwysoli yn hytrach na dewis cynllun cyfannol (llai dibynadwy). Mae cynlluniau marcio cyfannol hefyd yn llai llafurus i'w cymhwyso, gan fod y marciwr ond yn dyfarnu un sgôr gyfansawdd.

Un nodwedd sy'n codi weithiau mewn cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar lefelau yw cyflwyno rhwystrau, boed hynny'n fwriadol ai peidio. Er enghraifft, gallai disgrifiad band uwch ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr gyflwyno'r achos dros ac yn erbyn gosodiad, gan olygu bod unrhyw ateb nad yw'n gwneud hyn (neu yn bwysig ddigon, y mae'r marciwr yn barnu nad yw'n gwneud hyn) yn cael marc o fand is, waeth pa mor dda yw'r achos a wneir dros un ochr o'r ddadl. Neu efallai y bydd band yn ei gwneud yn ofynnol i nodi tair enghraifft o rywbeth, gan olygu y bydd ymateb sy'n nodi dwy enghraifft a ddadansoddir yn wych yn cael marc is. (Mae'n bwysig nodi yma nad yw'n gymaint o broblem pan fydd y dasg yn pennu nifer yr enghreifftiau sydd angen eu nodi ac ati).

Ceir enghraifft benodol o hyn yn y cynlluniau marcio ar gyfer TGAU Ieithoedd Tramor Modern (ITM) lle mae'r band perfformiad gorau ar gyfer ansawdd iaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymateb gynnwys o leiaf tri gwahanol amser y ferf (mae'r meini prawf yn cyfeirio at amrywiaeth o amserau'r ferf, gyda thri neu fwy yn ddehongliad digon rhesymol o 'amrywiaeth'). Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na all darn, sydd wedi'i ysgrifennu'n rhugl ac yn drawiadol ac sy'n defnyddio dau amser y ferf o ganlyniad naturiol i'w gynnwys, gyrraedd y band hwnnw. Eglurwyd ymhellach fod hyn yn cael effaith negyddol ar y broses addysgu a dysgu a gall greu ymarferion ysgrifennu artiffisial iawn, a gaiff eu llunio i fodloni'r gofyniad yn unig.

Yn ôl canfyddiadau rhagarweiniol darn pwysig o waith ymchwil gan Ofqual ar gynlluniau marciau ar sail lefelau a gyflwynwd yng nghynhadledd AEA Europe ym Mhrag yn 2017, presenoldeb rhwystrau o'r fath oedd y ffactor mwyaf allweddol o bell ffordd a oedd yn cyfrannu at farcio anghywir. [3] Mae'n werth nodi y canfuwyd bod defnyddio print bras neu italig yn y cynllun marcio hefyd yn cyfrannu mewn ffordd ystadegol arwyddocaol at anghywirdeb (mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r casgliadau a geir yn y llenyddiaeth bresennol, lle awgrymwyd y dylid defnyddio'r dull hwn er mwyn gwneud cynlluniau marcio yn haws eu defnyddio). Mae'n bosibl bod y dull hwn wedi gwneud i'r elfennau a bwysleisir ymddangos yn elfennau gofynnol, ac felly roeddent yn gweithredu fel rhwystrau. (Roedd cyflwyno'r cynnwys dangosol ar ffurf pwyntiau bwled yn hytrach na rhyddiaith hefyd yn amharu ar gywirdeb marcio: mae'n hawdd gweld sut y gallai ei gyflwyno felly ymddangos fel rhestr wirio. Mae'n werth nodi yma hefyd fod yr un ymchwil wedi awgrymu bod cyflwyno'r bandiau marciau mewn trefn esgynnol neu ddisgynnol yn cael effaith fach ac anarwyddocaol ar ddibynadwyedd marcio yn y gwaith ymchwil hwn).

Yn ei hanfod, ceir dwy ffordd o gyflwyno cynllun marcio lefelau ymateb (er na ddylid cymryd y nodweddion cyflwyno eraill yn ganiataol, fel y nodir uchod). Yn y gyntaf, bydd yn gysylltiedig ag eitem benodol, fel bod y grid disgrifiadau perfformiad yn ymddangos ar yr un dudalen â'r cynnwys dangosol, â'r cynnwys dangosol islaw efallai. Pwysleisiwyd ar sawl achlysur y dylid cadw'r ddwy elfen ar wahân cymaint â phosibl, hyd yn oed dan yr amgylchiadau hyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd y mater a nodwyd yn gynharach, sef bod y cynnwys yn cael ei ystyried fel cynnwys gofynnol yn hytrach na dangosol, lle caiff ei gymysgu â'r disgrifiadau lefel.

Mae'r ymagwedd arall yn addas ar gyfer papurau neu adrannau o bapurau sy'n cynnwys dim ond eitemau estynedig sy'n ymdrin â'r un set o sgiliau (fel sy'n digwydd yn aml mewn papurau hanes neu Lenyddiaeth

[3] AEA Europe: Cymdeithas Asesu Addysgol Ewrop. Nid yw'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi hyd yma.

Saesneg er enghraifft). Yn y sefyllfa hon, bydd y grid yn gymwys i'r cwestiwn cyfan (ac, yn fwy na thebyg, dros amser) a bydd fel arfer yn cael ei gyflwyno ar ei ben ei hun ar ddechrau'r cynllun marcio. Yna caiff y cynnwys dangosol ei osod gyda phob cwestiwn unigol, oherwydd bydd angen iddo fod yn unigryw ym mhob achos.

6.2.1 Sut y dylai cynllun marcio ymdrin ag atebion annisgwyl?

Mae hon yn fwy o broblem gydag atebion estynedig, gan ei bod yn anoddach cadw rheolaeth dros ystod canlyniadau mor eang. Mae'n fater arbennig o bwysig, lle gallai'r broblem o ba mor rhagweladwy yw'r papur amlygu'i hun, a lle mae'r defnydd o atebion wedi'u paratoi hefyd yn berthnasol. Yn y cynllun marcio, y cyfan y gellir ei ddarparu yw canllawiau ar yr angen i farcio'r hyn a gyflwynir mewn perthynas â pha mor berthnasol ydyw i'r cwestiwn gwirioneddol a ofynnwyd. Fodd bynnag, ceir risg wirioneddol o or-wobrwyo atebion a baratowyd ymlaen llaw ac atebion lle mae'r myfyriwr yn nodi popeth y gall feddwl amdano ynghylch pwnc. (Yn yr achos hwn hefyd, nid yw egwyddor marcio cadarnhaol o reidrwydd yn esgor ar y deilliannau gorau). Mae'n hanfodol sicrhau felly fod perthnasedd yn elfen bwysig o'r nodweddion a wobrwyir fel bod modd i ateb, waeth pa mor annisgwyl, gael ei farnu fel ateb i'r cwestiwn.

6.2.2 Beth yw rôl sgriptiau enghreifftiol priodol?

Yn ei hanfod, yr un rôl sydd gan sgriptiau enghreifftiol mewn cysylltiad ag atebion estynedig ag sydd ganddynt mewn cysylltiad ag atebion byrrach: helpu marcwyr i ddeall beth yn union y mae'n briodol i'w wobrwyo. Yn yr achos hwn, y prif ffocws yw tynnu sylw at y termau allweddol yn y disgrifiadau perfformiad. Rhwystr yn hyn o beth, wrth gwrs, yw bod hyd yr ymatebion yn ei gwneud yn anoddach o lawer i gwmpasu ystod mor eang o'r ymatebion ag y byddai'n ddymunol, a hynny ar gyfer dewis enghreifftiau priodol o fewn yr amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddi. Un awgrym a gafwyd, yn enwedig lle bo'r cynllun marcio yn gyffredin ar draws cwestiynau a chyfresi arholiadau, oedd datblygu set o ddeunyddiau o arholiad blaenorol, wedi'u dewis yn ofalus i dynnu sylw at y nodweddion allweddol, gyda nodiadau cysylltiedig. Byddai deunyddiau o'r fath, wrth gwrs, yn ategolion defnyddiol iawn i'r cynlluniau marcio cyhoeddedig.

6.2.3 Beth yw rôl cynnwys dangosol?

Yn fras, yr un rôl sydd gan gynnwys dangosol ag ar gyfer unrhyw eitem arall: mae'n ceisio crynhoi beth yn union y mae'r gosodwr yn chwilio amdano yn yr ymatebion i'r dasg, a gall felly ddilysu ymatebion y marciwr ei hun iddi. Mae'n hanfodol nad yw'r cynnwys dangosol yn cael ei ystyried yn gynhwysfawr nac yn rhagnodol, ac mae pob cynllun marcio wedi'i eirio i gyfleu hynny, gan annog marcwyr i wobrwyo unrhyw ddeunydd perthnasol arall. Yn wir, mae dwy fantais i sicrhau bod y cynnwys dangosol yn addas ond yn gymharol gryno. Yn gyntaf, mae'n ei gwneud yn amlwg nad yw'n gynhwysfawr ac felly'n awgrymu y gellir ymddiried yn y marcwyr i adnabod yr hyn sy'n berthnasol, sy'n elfen bwysig o fagu hyder a sefydlu cymuned ymarfer. Yn ail, mae llai ohono i gymhlethu'r broses farcio drwy ychwanegu at y baich gwybyddol, sy'n ffactor na ddylid ei ddiystyru. Nid oes angen, nac unrhyw ddiben i atebion enghreifftiol.

6.3 Gwahaniaethau rhwng pynciau

Mae gan bob pwnc ei nodweddion ei hun, a adlewyrchir yn aml yn natur y papurau cwestiynau a'r cynlluniau marcio cysylltiedig. Dau bwnc sy'n amlwg iawn yn y maes hwn yw mathemateg ac ieithoedd tramor modern (ITM).

Ym mathemateg (ac yn elfennau rhifyddol pynciau eraill), un mater sy'n amlygu'i hun yw dilyn drwodd neu gario gwall ymlaen. Yr egwyddor yw na ddylai myfyriwr ond gael ei gosbi unwaith am yr un gwall. Felly, rhoddir credyd ar gyfer ateb anghywir a ddefnyddir yn gywir mewn rhannau dilynol o'r cwestiwn i gyfrifo ateb anghywir gan ddefnyddio'r dull cywir. Cyfyngir ar hyn weithiau gan union natur y gwall, ond nid amheuir yr egwyddor. Mae hyn yn cymhlethu'r broses farcio rywfaint, gyda marcwyr yn gorfod ailgyfrifo'r ateb ar sail y gwall, a'r posibilrwydd y bydd marciau dilys yn cael eu colli. Mae hefyd yn dueddol o gymhlethu'r ffordd y cyflwynir

cynlluniau marcio, y mae angen iddynt ddarparu'r dull a'r ateb disgwyliedig, unrhyw wybodaeth am atebion derbyniol eraill, unrhyw wybodaeth am yr hyn nad yw'n dderbyniol ac unrhyw wybodaeth am y cwmpas ar gyfer marciau dilyn drwodd. Serch hyn, yn nhermau dibynadwyedd, mae marcio mathemateg yn eithriadol o gywir.

Mae gan ITM berthynas â chywirdeb ac ansawdd mynegiant sydd ychydig yn wahanol i bynciau eraill. Yn rhannol er mwyn osgoi hyn, bydd y broses o asesu sgiliau derbyn yn osgoi gofyn i'r myfyrwyr gynhyrchu testun yn yr iaith. Ond ar gyfer y sgiliau mynegi, bydd y marcio'n ymdrin â chynnwys, ansawdd y mynegiant a chywirdeb. Fel y nodwyd uchod, gall ansawdd y mynegiant gyflwyno rhwystr problematig iawn yn y broses asesu. Mae creu cynllun marcio sy'n gwobrwyo cywirdeb yn briodol hefyd yn broblematig wrth i un myfyriwr lunio ymateb ceidwadol iawn sydd, o ganlyniad, yn gymharol rydd rhag gwallau, tra bod un arall yn ysgrifennu'n uchelgeisiol, gan ddefnyddio cystrawennau cymhleth a geirfa soffistigedig, ond, yn anochel, yn gwneud mwy o wallau. Gall geiriad cynlluniau marcio ITM ddioddef hefyd o fethiant i gydnabod mai asesiad o iaith dramor ydyw, gyda'r band uchaf yn ymddangos ei fod yn mynnu perfformiad mewn termau a fyddai'n herio siaradwr mamiaith.

Nodwyd hefyd fod gwahaniaeth mawr yn yr hyn sy'n ddisgwyliedig o ateb estynedig mewn papur Llenyddiaeth Saesneg, er enghraifft, nag o ateb estynedig mewn papur y gyfraith. Mae rhai pynciau yn galw am dystiolaeth o ymateb personol mewn traethawd (wedi'i gefnogi gan wybodaeth a dealltwriaeth), tra bod eraill yn chwilio am ddadl resymegol wedi'i rhesymu'n ofalus gan gyfeirio at awdurdodau priodol, gan arwain at gasgliad nad yw'n agored o bosibl. Mae'n bwysig bod y disgrifiadau lefel ar gyfer y ffurfiau gwahanol iawn hyn ar ysgrifennu estynedig yn adlewyrchu'r disgwyliadau gwahanol iawn hyn yn glir.

Ffactor pwysig arall sy'n benodol i bynciau yw nad yw'r geiriau gorchymyn o reidrwydd yn golygu'r un peth ar draws pob pwnc. Er enghraifft, mae'r gwahaniaeth rhwng disgrifiad ac eglurhad yn llai amlwg mewn rhai agweddau ar wyddoniaeth nag ydyw mewn ambell bwnc yn y dyniaethau, er enghraifft. Mae'n rhaid i bob pwnc bennu ei dacsonomi o eiriau ei hun felly, ac yna eu defnyddio'n gyson. Byddai'n ddefnyddiol pe bai mwy o gysondeb yn hynny o beth.

Ystyriaethau pellach

Nodwyd eisoes ei bod yn bwysig defnyddio goleddfeiriau mewn disgrifiadau band yn ofalus ac yn gyson (er y gallai'r rhain fod yn benodol i bynciau i ryw raddau). Mae hefyd yn bwysig eu bod yn gweithio fel hierarchaeth mewn iaith naturiol, sydd yn ôl pob tebyg, yn pennu y gellir cael hyd at tua phump o fandiau. Mae cynlluniau marcio ar sail lefelau yn bodoli mewn TGAU a Safon Uwch, a gallai'r union gyfyngiadau hynny yn yr iaith naturiol olygu y dylid defnyddio'r un oleddfeiriau yn y ddwy lefel o arholiad. Fodd bynnag, ni ddylent olygu'r un peth: dylai ateb cyfyngedig ar lefel TGAU fod yn fwy cyfyngedig nag ateb ar lefel Safon Uwch a dylai ymateb soffistigedig ar lefel TGAU fod yn llai soffistigedig nag ateb ar lefel Safon Uwch. Mae'n debyg mai sgriptiau enghreifftiol yw'r ffordd orau o egluro hyn, sy'n golygu na ellir mynd i'r afael â'r mater o fewn un cymhwyster, yn enwedig gan fod deunyddiau arholi ar gael yn gynyddol yn y parth cyhoeddus. Hyd yn oed os nad yw deunyddiau enghreifftiol ar gyfer y ddau gymhwyster yn cael eu cyhoeddi, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn dangos nid yn unig cynnydd o fewn cymhwyster ond hefyd, cynnydd ar draws lefelau.

7 Crynodeb o Grŵp Ffocws AlphaPlus

Cytunwyd yn gyffredinol mai'r prif faes lle mae pryderon yn codi am gywirdeb marcio yw cwestiynau sydd yn gofyn am ymatebion estynedig, fel arfer yn ysgrifenedig, ac o ganlyniad, canolbwyntiodd y drafodaeth ar farcio cwestiynau estynedig. Dyma'r prif bwyntiau a gododd:

- Cyfannol, dadansoddol neu'n seiliedig ar bwyntiau

Mae'n bwysig sôn am bob un o'r tri dull, ond dylid pwysleisio na chaiff cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar bwyntiau eu defnyddio yn aml iawn, os o gwbl, mewn TGAU neu Safon Uwch ar gyfer cwestiynau tariff uchel. Gallant fod yn ddilys ar gyfer eitemau sy'n canolbwyntio'n helaeth ar wybodaeth (er y byddai'r rhain yn dueddol o fod yn ailadroddus iawn ac yn well fel eitemau strwythuredig) neu lle mae'r tîm marcio yn ddibrofiad neu lle nad ydynt yn arbenigwyr, gan ei bod yn broses fwy mecanyddol. Ceir tystiolaeth bod cynlluniau marcio o'r fath yn llai dibynadwy ar ôl i nifer y marciau fynd yn uwch na 12 (gweler Bramley, 2008).

Ceir dadleuon croes am y ddau ddull sy'n seiliedig ar lefelau. Ceir tystiolaeth fod dull dadansoddol ychydig yn fwy dibynadwy na dull cyfannol. Hefyd, mae cynllun dadansoddol yn sicrhau mewn egwyddor fod y marciau'n adlewyrchu'r pwysoliad a fwriedir ar gyfer y gwahanol linynau/Amcanion Asesu sy'n cael eu hasesu. Mae hefyd yn fwy llafurus ac felly mae'n galw am fwy o adnoddau ac mae'n agored i'r effaith eurgylch, lle mae'r marciwr yn methu â chadw perfformiad ar draws y gwahanol linynau ar wahân wrth ddyfarnu'r marciau. I'r gwrthwyneb, mae'r dull cyfannol yn adlewyrchu'r ffordd ddilys o ddarllen ysgrifennu estynedig yn agosach, ac mae'n gyflymach ac yn galw am lai o adnoddau. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r baich gwybyddol ar y marciwr wrth geisio canfod y gyfatebiaeth orau dros ystod eang o sgiliau. (Mae bron yn sicr nad yw'n ddim llai agored i'r effaith eurgylch, ond mae'n anoddach ei adnabod).

Mae math o gynllun marcio hybrid hefyd yn bosibl, lle dyfernir nifer benodol o farciau am wneud pwyntiau penodol sy'n berthnasol i'r pwnc, a'r gweddill am ddyfarniad cyfannol am gydlyniant, effeithiolrwydd ac ati. Gallai hwn fod yn addas i fathau penodol o atebion estynedig, ond byddai'n bwysig sicrhau bod strwythur y marciau yn adlewyrchu cydbwysedd yr Amcanion Asesu yn y lluniad yn gywir.

- Rôl barnu cymharol

  Gwnaethom drafod lle barnu cymharol yn y broses farcio, er y cydnabyddir mai cyfyngedig yw'r gallu i'w ddefnyddio mewn asesiadau pwysig. Erys barnu cymharol yn ddull posibl pwysig o farcio a allai newid natur cynlluniau marcio yn gyfan gwbl. Mae dwy agwedd ar farnu cymharol fel proses sy'n bwysig eu nodi. Y gyntaf yw ei fod yn cydnabod bod y broses o farcio, ac yn benodol, marcio atebion estynedig, yn ei hanfod yn gyfres o gymariaethau, a hynny nid yn unig â'r cynllun marcio ond ag ystod o fodelau ac archdeipiau eraill. (Mae defnydd Crisp o brotocolau meddwl-yn-uchel yn dangos hyn yn glir - cyfeiriwyd ato yn AlphaPlus, 2014). Yr ail yw nad yw'n osgoi creu cynllun marcio. Yn wir, gellir dadlau ei fod yn mynnu dwy elfen allweddol o gynllun marcio effeithiol. Mae angen cytuno ar 'ddatganiad pwysigrwydd' (Ahmed a Pollitt, 2011), o leiaf, sy'n ceisio crynhoi, yn nhermau sy'n benodol i'r pwnc, yr hyn y mae'r myfyrwyr i fod i'w ddangos am yr hyn maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu'i wneud. Byddai proses o'r fath bron yn sicr yn elwa ar osodwr yn llunio cynnwys dangosol ar gyfer eitem, gan ei fod yn ddull effeithiol o ganolbwyntio ar p'un a fydd tasg benodol yn esgor ar yr ymddygiadau a ddisgwylir gan y myfyriwr.

- Nifer y lefelau

  Caiff nifer y lefelau a ddefnyddir fel rhan o gynllun marcio ei phennu'n rhannol gan nifer y marciau sydd ar gael, ond mae hefyd wedi'i chyfyngu gan gyfyngiadau iaith naturiol. Er enghraifft, pan benderfynwyd cynyddu nifer y graddau mewn GNVQ o dair i bedair, bu'n rhaid ychwanegu term newydd i'r tair gwreiddiol, sef Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth. Mae'r term a ddewiswyd, Clod, yn gweithio fel term rhwng Llwyddo a Rhagoriaeth, ond nid yw'n gwbl amlwg, yn nhermau'r iaith naturiol, ei fod yn israddol i Teilyngdod. Fel canllaw wrth farnu, ni fyddai'n fawr o gymorth, a dyna sy'n ofynnol o'r eirfa ansoddol mewn cynllun marcio, sydd angen bod mor dryloyw â phosibl. Wrth gwrs, gall yr hyfforddiant helaeth sy'n rhan arferol o sicrhau safoni roi cnawd ar esgyrn y termau, ond mae'n gadael y broses yn agored, yn enwedig o gofio'r gynulleidfa eilaidd o athrawon a myfyrwyr na fyddant yn derbyn yr hyfforddant. Problem arall (a grëwyd yn ei hanfod gan gyfyngiadau'r iaith naturiol) yw ei bod yn debygol y bydd

angen defnyddio'r termau ar gyfer arholiadau ar wahanol lefelau, fel y'u defnyddiwyd ar gyfer GNVQ. Ond mae'n annhebygol y byddai term fel 'cyfyngedig' yn golygu'r un peth mewn cynllun marcio TGAU ag y byddai mewn cynllun marcio Safon Uwch.

Yn gyffredinol, po fwyaf y marciau sydd ar gael ar gyfer eitem, y mwyaf yw lefel yr anghywirdeb (Bramley, 2008) ac yn arbennig, y risg o glystyru. Hefyd, mae'r effaith glystyru yn digwydd hyd yn oed o fewn band marciau os oes nifer fawr o farciau ar gael yn y band. Mantais arall sydd gan ddull dadansoddol dros ddull cyfannol yw y gellir dosbarthu cyfanswm y marciau dros nifer fwy o gelloedd yn y grid, pob un â'i ddisgrifiad penodol ei hun, gan leihau nifer y marciau o fewn cell. Fodd bynnag, mae'r dull hwn hefyd yn achosi rhywfaint o atchweliad yn yr effeithiau cymedr, lle bo unrhyw amharodrwydd seicolegol i ddyfarnu uchafswm y marciau yn cael ei ailadrodd o fewn pob llinyn o'r asesiad, gan leihau ystod gyffredinol y marciau a ddyfernir.

- **Effaith marcio ar-lein**
  Bu newid sylweddol tuag at farcio ar-lein dros y ddeng mlynedd diwethaf a gall hyn gael effaith sylweddol ar ddyluniad cynlluniau marcio yn ogystal, yn fwy amlwg, ag ar y prosesau cysylltiedig. Un fantais sylweddol y mae marcio ar-lein yn ei chynnig yw ei fod yn gwella lefel ac effeithlonrwydd y cyfathrebu rhwng y marciwr a'r marciwr sy'n goruchwylio yn fawr. O ganlyniad, mae'r broses o ymdrin ag atebion annisgwyl hefyd yn gwella, gan leihau'r pwysau ar gynlluniau marcio i geisio cwmpasu popeth.

  Ar ben hyn, lle mae'r system marcio ar-lein yn dyrannu is-set o gwestiynau i farcwyr eu marcio, daw'r cynllun marcio y mae'n rhaid i bob marciwr ymgyfarwyddo ag ef yn haws ei reoli yn awtomatig, ac felly gall fod yn fwy cynhwysfawr ar gyfer pob cwestiwn heb orlwytho'r marciwr â gwybodaeth.

  I'r gwrthwyneb, nid yw bob amser yn bosibl gweld y cynllun marcio ar y sgrin ar yr un pryd ag edrych ar y cwestiwn, gan olygu bod y dull o fynd yn ôl ac ymlaen rhwng y ddwy sgrin (yn enwedig) neu rhwng y sgrin a'r copi papur ychydig yn fwy beichus yn wybyddol. Mae'n bwysig meddwl yn ofalus am y rhyngwyneb defnyddwyr felly. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ymdrin ag atebion estynedig sy'n ymestyn dros fwy nag un sgrin, sy'n llesteirio'r broses naturiol o ddarllen yn arfarnol – edrych yn ôl i wirio ac ati.

  Ni cheir mwyach wahaniaeth mor glir rhwng marcio a safoni. Gall fod proses gydgysylltu gychwynnol a ddiffinir yn glir, sef y cyfarfod safoni, a gall hyn yn oed hwn gael ei gynnal ar-lein. Ond mae'r camau samplu yn awr wedi'u hymgorffori'n gyffredinol yn y broses farcio, gan ddefnyddio eitemau dethol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws o lawer i ailbennu ffocws (neu atal) marciwr sy'n camgymhwyso rhan benodol o gynllun marcio.

- **Sut i ymdrin â gofynion i asesu elfennau nad ydynt yn berthnasol i'r lluniad**

  Yn ei hanfod, mae'r holl gyngor arbenigol ar greu cynlluniau marcio effeithiol yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod y lluniad wedi'i ddiffinio'n glir (cyfeirier at y 'datganiad pwysigrwydd') ac yn canolbwyntio ar un nodwedd. Os oes gofynion lefel uchel i gynnwys nodwedd nad yw'n berthnasol i'r lluniad (e.e. sillafu, atalnodi a gramadeg, y peth gorau i'w wneud yw ei asesu ar wahân. Yn yr achos hwn, mae'r un egwyddorion o gynllun marcio effeithiol yn berthnasol i'r is-gynllun: mae'n bwysig sicrhau bod yr union ofynion yn glir. Yn bwysig ddigon, mae bron yn sicr y ceir rhywfaint o effaith eurgylch. D.S. Lle bo atebion estynedig yn cynnwys rhyddiaith barhaus, bydd rhai elfennau megis sicrhau bod yr hyn a ddywedir yn gwneud synnwyr (sydd bron yn sicr yn cynnwys rheolaeth gystrawennol a gramadegol) yn debygol o fod yn rhan o'r lluniad ac felly mae'n bwysig peidio â gwobrwyo'r rhinweddau hyn ddwywaith.

- **Defnyddio atebion enghreifftiol**

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng ymatebion enghreifftiol (h.y. atebion go iawn a gaiff eu codi o'r broses cynbrofi neu sgriptiau byw) sydd, ynghyd â nodiadau, yn ddull defnyddiol ar gyfer dangos sut i gymhwyso'r cynllun marcio, ac atebion enghreifftiol (h.y. lle mae'r arholwr yn llunio model o'r ffordd y disgwylir i'r myfyriwr ymateb). Gall atebion enghreifftiol bennu safon afresymol o uchel a pheri i'r marciau uchaf ymddangos yn anghyraeddadwy, gan leihau'r ystod marciau effeithiol. Gallant hefyd gael eu dehongli fel cynnwys gofynnol (sydd bob amser yn risg wrth ddarparu enghreifftiau) a gostwng y marciau i gyd.

Ceir achos dros ddefnyddio ymatebion enghreifftiol fel rhan o'r cynllun marcio cyhoeddedig, a gallant fod yn hanfodol yn weithredol os na fydd unrhyw hyfforddiant ar ddefnyddio'r cynllun marcio. Ond, hyd yn oed yn yr achos hwn, mae'n annoeth defnyddio atebion enghreifftiol, gan nad ydynt yn rhoi unrhyw syniad o'r safonau gwirioneddol a ddisgwylir.

- **Rôl y cynllun marcio wrth atal rhagweladwyedd**

  Un o'r cwynion rheolaidd gan rai randdeiliaid yw bod modd rhagweld cynnwys arholiadau erbyn hyn. Mae sawl ffactor yn nhermau'r fanyleb a'r broses a ddefnyddir ar gyfer ei samplu dros amser, a all gyfrannu at hyn. Er enghraifft, gall cylchdroi pynciau mewn ffordd rhy amlwg arwain at addysgu llai o'r cynnwys nag y mae'r fanyleb yn ei fwriadu neu ei ddisgwyl. Neu gall geirio eitemau mewn ffordd sy'n rhy amwys neu nad yw'n amrywio ddigon dros gyfresi arholiad arwain at or-wobrwyo atebion a baratowyd ymlaen llaw. Mae'r materion hyn y tu allan i gwmpas y gwaith hwn. Fodd bynnag, ystyrir bod defnyddio cynlluniau marcio safonol, cyffredinol, sy'n seiliedig ar lefelau, sy'n gyffredin i bob cwestiwn ar bapur, a hyd yn oed o un flwyddyn i'r llall, yn achosi rhagweladwyedd yn aml. Mae dau ateb allweddol i hyn, y tu hwnt i osod eitemau gwell. Y cyntaf yw sicrhau bod perthnasedd yn nodwedd allweddol o'r disgrifiadau lefel. Yr ail yw cynnwys dangosol. Yn y cynnwys hwn y mae gofynion pob cwestiwn penodol i'w gweld, felly mae'n bwysig ei fod yn crynhoi'r gofynion hynny'n glir yn hytrach na bod yn rhy gyffredinol.

- **Effaith argaeledd sgriptiau wedi'u marcio a chynlluniau marcio**

  Mae'n bwysig cydnabod bod dychwelyd sgriptiau wedi'u marcio a chyhoeddi cynlluniau marcio bellach yn nodweddion o'r system. Mae hyn wedi chwarae rôl bwysig wrth wella pa mor dryloyw yw'r arholiadau i athrawon, myfyrwyr a'r cyhoedd, ond mae hefyd yn cyflwyno heriau ychwanegol. O gofio mai cynulleidfa eilaidd yw hon, ni ellir caniatáu iddi ymyrryd â phrif ddiben cynllun marcio, sef sicrhau bod y marcio mor gywir â phosibl. Ar ryw ystyr, a honno'n un bwysig, efallai y dylid ystyried y cynllun fel adnodd addysgol i athrawon: gan ddangos iddynt y materion sy'n codi wrth farcio a phenderfynu, er enghraifft, a yw ateb yn dderbyniol hyd yn oed pan nad yw'n gwbl gywir. (Lle bo'r gweithlu addysgu yn gymharol ddibrofiad yn y pwnc, fel sy'n wir o bryd i'w gilydd, mae'r diben addysgol hwn yn arbennig o bwysig).

8 Trafodaeth

Ceir llawer iawn o dir cyffredin rhwng canfyddiadau'r tri llinyn o ymchwil a gasglwyd. Mae pawb yn gytun y dylai'r cwestiynau a'r cynllun marcio gael eu datblygu gyda'i gilydd. Yn ogystal, ceir cefnogaeth eang i'r angen i'r cynllun marcio nodi ar sail pa egwyddor y dylid dyfarnu credyd, yn hytrach na cheisio darparu rhestr gynhwysfawr o atebion derbyniol ac annerbyniol.

Ar ben hyn, mae'r ymarfer yn amlwg yn debyg iawn ar draws cyrff dyfarnu, gyda phapurau yn cynnwys eitemau tebyg (o leiaf o fewn pynciau) sy'n cael eu marcio yn yr un ffordd yn fras waeth pwy sydd wedi eu gosod.

Ceir cytundeb cyffredinol ynghylch sut y dylid defnyddio deunydd enghreifftiol ac, yn arbennig, ei rhan yn y cyfarfodydd safoni, lle mae ganddo rôl allweddol i helpu marcwyr i ddeall sut i ddehongli'r iaith yn y cynllun marcio. Ystyrir bod cynnwys dangosol yn bwysig o ran helpu i ddiffinio'r ffordd y mae'r eitem yn ymdrin â'r rhan

ddiffiniedig o'r fanyleb. Fodd bynnag, er ei fod yn bwysig, cydnabu pawb yr angen i sicrhau ei fod yn cael ei gadw ar wahân i'r rhan o'r cynllun marcio a oedd yn dangos sut i ddyfarnu credyd ar gyfer ymatebion y myfyrwyr. Mewn nifer fach o achosion, yn arbennig lle mae cwestiwn tariff canolog yn ymdrin ag un Amcan Addysgu, awgrymwyd y gallai rhai elfennau o'r cynnwys gynnig pwyslais defnyddiol i'r disgrifiadau lefel.

Un pwynt a ddaeth i'r amlwg yn gyson iawn yn y cyfweliadau â'r arbenigwyr ac a nodwyd hefyd yn yr adolygiad llenyddiaeth oedd bod cyhoeddi'r cynlluniau marcio yn golygu bod ganddynt gynulleidfa eilaidd bwysig iawn. Cyflwyna hyn heriau penodol, yn enwedig os oes ymatebion a ganiateir yn y cynllun marcio sy'n debygol o fod yn ddadleuol. Cafwyd cydnabyddiaeth glir, fodd bynnag, na ellir caniatáu i ystyriaethau o'r fath ymyrryd â phrif ddiben y cynllun marcio, sef y prif gyfrwng cyfathrebu rhwng y gosodwr a'r marciwr. Yn wir, awgrymwyd y gallai penderfyniadau o'r fath fod yn ddefnyddiol i feithrin dealltwriaeth rhwng y cyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill, er enghraifft mewn cyfarfodydd datblygu proffesiynol parhaus ag athrawon a drefnir gan gyrff dyfarnu.

Un mater a gafodd ei gydnabod gan bawb oedd yr angen i gydbwyso pa mor drylwyr yw'r cynllun marcio a pha mor hawdd ei reoli ydyw. Mewn llawer o achosion, mae cymhlethdod annatod y broses farcio yn golygu bod y cynlluniau marcio yn agos at y terfyn o ran baich gwybyddol. Mae llawer o'r pwyntiau a godwyd yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon. Yn gyntaf, mae'r syniad y dylai'r cynllun ddechrau gyda datganiad clir o'r rhinweddau a ddisgwylir mewn ateb, ar gyfer pob eitem, fel arfer yn nhermau'r Amcan Asesu yn y fanyleb. Hon fydd yr egwyddor ar gyfer sut i ddyfarnu credyd ac mae'n golygu nad oes cymaint o angen i ddarparu rhestrau cynhwysfawr o atebion derbyniol ac annerbyniol.

Yn ail, tynnwyd sylw at y ffaith bod cynlluniau marcio yn swmpus yn rhannol am fod yr un canllawiau yn cael eu hailadrodd ynddynt. Awgryma hyn fod egwyddorion uwch ynglŷn â marcio hefyd, sydd o bosibl yn benodol i bwnc neu'n benodol i eitem. Felly, gallai fod yn ddefnyddiol i leihau'r baich gwybyddol pe byddai cynifer o'r egwyddorion hyn â phosibl yn cael eu tynnu o gorff y cynllun marcio a'u cyflwyno fel adran ar wahân ar y dechrau. Wrth gwrs, mae hyn yn peri risg i'r egwyddorion hyn gael eu hanghofio os nad ydynt yn bresennol yn y cynllun marcio ar gyfer eitem. Er enghraifft, un perygl penodol a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth ac a bwysleisiwyd drwy gydol y cyfweliadau â'r arbenigwyr oedd yr angen i gofio nad yw cynnwys dangosol yn gyfystyr â chynnwys gofynnol ar gyfer ateb (er yn amlwg, bydd rhywfaint o wybodaeth yn hanfodol ar gyfer ymdrin â thasgau mewn papur gwyddoniaeth). Lle mae'n briodol rhoi sylw i hyn, mae'n werth ei ailadrodd yn ôl pob tebyg.

Byddai hyn yn cyd-fynd yn dda â'r awgrym a wnaed mewn sawl un o'r cyfweliadau mai'r ffordd orau o helpu i ddehongli'r ansoddeiriau goleddfu fyddai drwy set o enghreifftiau, gyda sylwadau, wedi'u tynnu o bosibl o ymatebion y flwyddyn flaenorol - dogfen, fe'i nodwyd, a fyddai'n ddefnyddiol iawn yn nhermau'r berthynas ag ysgolion. Dylid nodi na fyddai hyn bosibl oni bai bod rheswm da dros ddefnyddio'r un strwythur yn seiliedig ar lefelau ar draws nifer o eitemau a chyfresi.

Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd, yn enwedig yn y disgrifiadau lefel, yn codi mater arall. Nid yn unig y mae angen egluro'r termau a ddefnyddir, ond hefyd mae angen iddynt olygu'r hyn a wnânt mewn iaith naturiol. Rhydd hyn rywfaint o gyfyngiadau ar nifer y lefelau y gellir eu defnyddio. Mae'n bwysig, er enghraifft, fod modd i'r myfyrwyr gorau gyrraedd y band uchaf drwy osgoi termau absoliwt neu, fel yr amlygwyd, fynnu bod myfyriwr cystal â siaradwr mamiaith mewn ITM. (Wrth gwrs, mae'n bwysig hefyd o ran canfyddiad y cyhoedd na wneir gofynion y band uchaf yn rhy syml). Yn yr un modd, mae'n bwysig bod y band gwaelod, ac eithrio marc o 0, yn seiliedig ar rywfaint o gyrhaeddiad gwirioneddol, yn hytrach na dim ond diffyg rhinweddau a fyddai'n ennill marciau uwch.

Roedd pryderon cyson am bresenoldeb rhwystrau (a gefnogwyd yn ddefnyddiol gan ymchwil gan Ofqual). Mae'n bosibl bod y rhain yn fwriadol (gan adlewyrchu'r syniad na ddylai myfyriwr nad yw'n dangos sgil benodol gyrraedd band marciau penodol), neu'n anfwriadol bron, lle nad yw'r ymgais i egluro'r rhinweddau a amlygir fel arfer gan ateb da yn cydnabod nad yw hyn yn berthnasol i bob ateb y cydnabyddir yn gyffredinol eu bod yn atebion da.

Yn y pen draw, mae lefel y cysondeb o fewn ac ar draws y ffynonellau amrywiol a archwiliwyd yn golygu ei bod yn bosibl tynnu set o egwyddorion a chanllawiau cyffredinol ohonynt, sef, heb fod mewn unrhyw drefn benodol:

- Rhaid bod y fanyleb, yr eitem a'r cynllun marcio yn gyson â'i gilydd, gyda'r cynllun marcio'n dangos yn glir nodwedd/nodweddion y fanyleb a brofir. Yn ystod y broses ddatblygu, os gwneir awgrym am newid, rhoddir blaenoriaeth i gynnal perthynas y cynllun marcio â'r fanyleb.
- Ar ben hyn, dylai pwysoliadau gwahanol elfennau'r cynllun marcio fod yn amlwg. Mae cynllun marcio dadansoddol yn fwy defnyddiol yn hyn o beth na chynllun marcio cyfannol. Yn hyn o beth, dylai'r marciau sydd ar gael adlewyrchu gofynion y cwestiwn.
- Ar ben hyn eto, mae'n bwysig sicrhau bod y geiriau gorchymyn a ddefnyddir yn y cwestiwn yn gydnaws â disgwyliadau'r cynllun marcio. Ni all cynllun marcio wobrwyo ymddygiadau myfyrwyr yn deg oni bai bod geiriad y cwestiynau, cyhyd ag y bo'n bosibl, yn rheoli'r ymddygiadau hynny. Mae hyn yn cynnwys materion megis gwahaniaethu rhwng disgrifio ac egluro, ond mae hefyd yn cwmpasu gofynion megis nodi'n glir nifer yr enghreifftiau sydd eu hangen, os bydd hyn yn effeithio ar y marc.
- Mae'n bwysig cael y cydbwysedd cywir rhwng lefel y manylder a ddarperir a pheidio â gorlwytho'r arholwr. Mae hyn yn berthnasol p'un a yw'n eitem un marc neu'n draethawd 25 marc. Os yw cynllun marcio yn dod yn rhy hir neu gymhleth yn ystod y broses ddatblygu, mae'n bosibl bod angen edrych eto ar y cwestiwn i gyfyngu ymhellach ar yr ystod o ymatebion posibl. Dylai datgan yn glir ar ba sail y caiff credyd ei ddyfarnu leihau'r angen am enghreifftiau helaeth.
- Ni ddylai rhwystrau gael eu cynnwys yn y cynllun marcio. Ceir tystiolaeth gref iawn fod y rhain yn amharu ar y drefn ansawdd ac yn lleihau cywirdeb y marcio. Os penderfynir bod angen gwobrwyo un sgil benodol neu ddarn penodol o wybodaeth uwchlaw'r gweddill, dylid adlewyrchu hyn yn strwythur y fanyleb. Gofal piau hi rhag rhwystrau anfwriadol!
- Nid yw atebion enghreifftiol yn helpu. Y brif effaith a gânt yw gostwng y marciau a ddyfernir i ymatebion da, ac nid ydynt yn effeithiol o ran dangos disgwyliadau'r cynllun marcio ar gyfer ymatebion gan fyfyrwyr go iawn. (Yn amlwg, ar gyfer rhywbeth fel problem mathemateg, bydd o leiaf un ateb a gyfrifwyd yn llawn yn y cynllun marcio, ond pwysigrwydd y rhain yn bennaf yw dangos sut y dylai'r marciau gael eu dyfarnu. Yn yr un modd, mae'n bosibl iawn y bydd eitem sydd angen ei diffinio yn rhoi diffiniad y geiriadur fel rhan o'r cynllun marcio, ond prif dasg y cynllun marcio yw helpu'r marcwyr i benderfynu sut i wobrwyo'r diffiniadau anghyflawn neu amherffaith y byddant yn eu gweld).
- Dylai'r enghreifftiau ymdrin ag elfennau penodol yr iaith neu ofynion y cynllun marcio. Fel y nodwyd uchod, mae'n bosibl y byddai'n well i'r enghreifftiau gael eu cynnwys mewn dogfen ar wahân y gellid ei chymhwyso i bob cwestiwn o fath penodol mewn papur neu fanyleb hyd yn oed. Tasg y broses hyfforddi a safoni fyddai cymhwyso'r wybodaeth mewn dogfen o'r fath i gwestiynau penodol yn yr asesiad cyfredol.
- Mae'n hanfodol i'r gosodwr gael syniad clir, ac wedi'i rannu o'r lluniad sy'n cael ei asesu, a hwnnw'n syniad echblyg os oes modd. Gallai hwn gael ei grynhoi'n oblygedig o fewn datganiad o nodau yn y fanyleb.
- Mae'n bwysig gwneud ymdrech fawr i bwysleisio'r syniad nad oes ateb gofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau tariff uchel. Gallai rhai o'r nodweddion fformatio a ddefnyddir mewn cynlluniau marcio, megis pwyntiau bwled neu'r defnydd o bwyslais, wneud hyn yn anoddach mewn gwirionedd, tra ymddengys bod rhoi'r bandiau marciau yn eu trefn o isel i uchel yn helpu.
- Mae cynnwys dangosol yn bwysig ond dylid ei gadw ar wahân, cymaint â phosibl, i'r dull o ddyfarnu credyd. Yn hytrach, dull arall yw'r cynnwys dangosol o grynhoi'r hyn a oedd gan y gosodwr mewn golwg wrth osod y cwestiwn. Mae'n ddefnyddiol, felly, cadarnhau bod y cwestiwn, y cynllun marcio a'r fanyleb yn parhau'n gyson â'i gilydd a bod y cynnwys dangosol yn wirioneddol adlewyrchu swm y cynnwys y bydd myfyriwr yn ei greu mewn ymateb i gwestiwn penodol.
- Mae'n bosibl iawn mai cyhoeddi cynlluniau marcio yw'r cyfraniad unigol mwyaf a wnaed i'r system arholi. Fodd bynnag, mae'n golygu bod ganddynt gynulleidfa eilaidd sylweddol - cânt eu defnyddio fel

adnodd pwysig ar gyfer addysgu a dysgu. Ni ellir anwybyddu hyn, ond ni ddylai amharu ar eu hamcan sylfaenol o sicrhau cysondeb marcio. Yn hytrach, efallai ei bod yn well ystyried bod y ffaith bod y cynlluniau marcio ar gael fel elfen bwysig i wella dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r broses asesu.

- Oherwydd nad yw cynllun marcio yn gweithio os yw'n rhy hir neu gymhleth, nid oes llawer o ddiben ceisio nodi'r hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol mewn ffordd gynhwysfawr. Yn wir, fel y nodwyd uchod mae'n strategaeth well i egluro ar sail pa egwyddor y caiff credyd ei ddyfarnu, a'r dull y mae disgwyl i'r marcwyr ei fabwysiadu. Yn bwysig ddigon hefyd, ni ddylid ystyried y cynllun marcio ar ei ben ei hun, ond fel rhan - a honno'n rhan ganolog wrth reswm - o'r broses safoni gyffredinol. Mae gan sgriptiau hyfforddi, sgriptiau safoni a thrafodaethau mewn cyfarfodydd hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu marcwyr i ddeall yr hyn sy'n ofynnol. (Mewn rhai achosion, dylai'r newid i farcio ar-lein, gan gyfyngu pob marciwr i is-set o gwestiynau ei gwneud yn haws i gydgysylltu'r marcio).
- Ar y cyfan, caiff cynifer o atebion annisgwyl â phosibl eu nodi yn ystod y broses safoni gyffredinol. Fel arall, ymdrinnir â nhw drwy eu cyfeirio at uwch farciwr – proses sydd wedi'i hwyluso a'i symleiddio'n fawr gan ddyfodiad marcio ar-lein. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol darparu rhywfaint o ganllawiau ar sut i ymdrin ag asesu ymateb y tu allan i'r cynllun marcio. Wedi'r cyfan, mae angen i'r cynllun marcio fod yn ddogfen sy'n grymuso.
- Ffactor penodol i'w ystyried gydag atebion nad ydynt yn cyfateb i'r cynllun marcio yw'r defnydd o atebion a baratowyd ymlaen llaw neu nodwedd arall sydd wedi gwneud y cwestiwn yn rhy hawdd ei ragweld. Mae angen llunio cynllun marcio mewn ffordd sy'n lliniaru'r risg hon.
- Mae marcio ar-lein yn cynnig rhywfaint o fanteision o ran cywirdeb y marciwr. Fodd bynnag, mae rhywfaint o anfanteision yn gysylltiedig ag ef, yn enwedig o ran asesu atebion estynedig. Ni all y marciwr roi'r cynllun marcio ochr yn ochr â'r ymateb fel y gellir ei wneud ar bapur; mae'n anoddach symud yn ôl ac ymlaen rhwng sgriniau os bydd ymateb yn hirach nag un sgrin, fel sy'n naturiol wrth ddarllen. Ac mae'n anoddach mynd yn ôl os bydd y marciwr yn newid ei feddwl wrth farcio, sy'n elfen anochel wrth wneud penderfyniadau cymhleth iawn. Dylai'r cynlluniau marcio (a'r llwyfan marcio) gael eu dylunio i leihau cymaint â phosibl ar y ffactorau hyn.
- Hefyd, mae marcio ar-lein yn ei gwneud fwy neu lai yn amhosibl nodi rhai ffurfiau ar gamarfer a nodweddion eraill sy'n berthnasol i farcio teg a chywir. Mewn pynciau ag atebion byr yn bennaf, gallai marciwr sy'n effro i'r mater nodi cydweithio drwy atebion anghywir union debyg; gydag atebion estynedig, yn enwedig y rheini sy'n gofyn am ymateb personol, yn aml mae'n ddefnyddiol gweld holl atebion y ganolfan er mwyn barnu p'un a yw ymateb yn arddangos rhinwedd benodol.

9 Goblygiadau i'r Canllaw ar Gynlluniau Marcio

Y prif beth y mae Cymwysterau Cymru am ei gyflawni yn sgil y prosiect hwn yw llunio canllaw ymarferol ar ddylunio cynlluniau marcio. Roedd casgliadau'r adolygiad llenyddiaeth yn cefnogi'r angen am ganllawiau pellach, ac felly, yn ystod y cyfweliadau â'r arbenigwyr, gwnaethom nodi bod hyn yn bosibl a cheisio syniadau a sylwadau am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn canllaw ar gynlluniau marcio. Mae rhai o'r pwyntiau a wnaed wedi'u nodi isod:

- Cefnogwyd y syniad o ganllawiau pellach a system arbenigol
- Byddai angen iddynt fod yn glir ac yn gryno: yn yr un modd â chynllun marcio, byddai angen sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng bod yn drylwyr a pheidio â rhoi gormod o wybodaeth
- Byddai angen nodi enghreifftiau, da a gwael
- Byddai angen nodi cryfderau a gwendidau pob ymagwedd bosibl yn glir
- Byddai'n ddefnyddiol iawn darparu rhestrau gwirio o'r mathau o gamau y byddai angen eu cymryd wrth adolygu cynllun marcio
- Byddai siartiau llif a diagramau yn ddefnyddiol i ddangos y prif brosesau, ond byddai angen egluro cysyniadau'n llawn hefyd

- Byddai angen adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng mathau o eitemau a rhwng pynciau neu feysydd pwnc
- Byddai'n rhaid ystyried yr angen am eirfa ansoddol wrth wahaniaethau rhwng disgrifiadau, a nodi ei chyfyngiadau
- Byddai'n rhaid i'r canllawiau hybu dealltwriaeth o'r broses ddatblygu yn ogystal â gwerthuso'r canlyniadau.

Mae'r cysyniadau hyn yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer unrhyw ganllawiau dilynol.

10 Atodiad 1: Y Rhaglen Gyfweliadau

Cynlluniau marcio effeithiol: rhaglen gyfweliadau

Cyflwyniad

- Cyflwynwch eich hun ac Alpha*Plus.*
- Eglurwch natur y prosiect a diben y cyfweliad.
- Eglurwch na ddylai'r cyfweliad bara mwy na 40 munud oni bai ei fod/ bod yn fodlon iddo bara ychydig yn hirach. [Y cyfwelydd i geisio amseru'r cyfweliad er mwyn ei gwblhau mewn 40 mun. Os oes gan y cyfwelai lawer i'w ddweud, ar ôl tua 30 munud, gofynnwch a yw'n hapus i'r cyfweliad bara ychydig yn hirach.]
- Gofynnwch a yw'n fodlon i'r sefydliad y mae'n ei gynrychioli a/neu ei rôl gael ei nodi yn yr adroddiad y byddwn yn ei gyflwyno, ac a yw'n fodlon i'w sylwadau gael eu priodoli iddo/iddi
- Gofynnwch a yw'r person yn fodlon i'r cyfweliad gael ei recordio i'w ddefnyddio gan dîm ymchwil AlphaPlus yn unig.

Os ydyw, dechreuwch y peiriant recordio llais. Os nad ydyw, nodwch hanfod yr ymatebion ar bapur neu ar ffurf dogfen wedi'i theipio yn ystod y cyfweliad.

Pennwch ffiniau ar gyfer y drafodaeth

Mae gennym ddiddordeb mewn amrywiaeth o faterion:
Egwyddorion cynllun marcio da
Beth yr hoffent ei weld mewn canllaw ar gynlluniau marcio
cynlluniau marcio ag arddulliau gwahanol
yr amrywiaeth o'r mathau o eitemau ymateb a roddwyd i'w chwmpasu
y lefel ddisgwyliedig o ddibynadwyedd (marciau/sylwadau)

A. Dysgwch fwy am y cyfwelai

Dechreuwch drwy ddweud ychydig mwy wrthyf am eich cefndir a'ch profiad o ran ysgrifennu/gwerthuso cynlluniau marcio

Er enghraifft, a ydych wedi canolbwyntio ar bynciau neu ddulliau asesu penodol
Beth yn union oedd eich rôl chi, e.e. datblygu, gwerthuso, gweinyddu ac ati

B. Llunio cynlluniau marcio ar gyfer eitemau atebion byr

Beth yw'r dulliau gorau ar gyfer eitemau atebion byr?
A ydych wedi gweld enghreifftiau lle cafodd hyn ei wneud yn dda? (A oes gennych enghreifftiau y gallwch eu rhannu?)
Sut y byddwch yn ymdrin ag atebion annisgwyl?
Sut y byddwch yn darparu enghreifftiau priodol?
Beth yw rôl cynnwys dangosol yn eich barn chi?
Ym mha ffordd y mae'n mynd o chwith yn gyffredinol?

C. Llunio cynlluniau marcio ar gyfer eitemau sy'n gofyn am atebion estynedig

Beth yw'r dulliau gorau o ymdrin ag atebion estynedig?
A ydych wedi gweld enghreifftiau lle cafodd hyn ei wneud yn dda?(A oes gennych enghreifftiau y gallwch eu rhannu?)
Sut byddwch yn ymdrin ag atebion annisgwyl?
Sut y byddwch yn darparu enghreifftiau priodol?
Beth yw rôl cynnwys dangosol yn eich barn chi?
Ym mha ffordd y mae'n mynd o chwith yn gyffredinol?

Ch. Gwahaniaethau rhwng pynciau

A oes ffactorau sy'n benodol i bynciau sy'n effeithio ar ddyluniad cynlluniau marcio?
A allwch roi unrhyw enghreifftiau?

Ystyriaethau pellach

Beth fyddai'n ddefnyddiol mewn canllaw ar gynlluniau marcio yn eich barn chi?
A oes unrhyw un arall y dylem siarad â nhw yn eich barn chi?
A oes gennych unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthyf am y pwnc hwn?
Diolch yn fawr iawn i chi am gymryd yr amser i siarad â fi heddiw, ac ati...

11 Atodiad 2: Cyfeiriadau'r Adolygiad Llenyddiaeth

Ahmed, A. a Pollitt, A. (2011). Improving marking quality through a taxonomy of mark schemes, Assessment in Education: Principles, Policy & Practice, 18:3, 259-278.

AlphaPlus (2014). Standardisation methods, mark schemes, and their impact on marking reliability. Ofqual/14/5380.

Black, B., Suto, I. a Bramley, T. (2011). The interrelations of features of questions, mark schemes and examinee responses and their impact upon marker agreement, Assessment in Education: Principles, Policy & Practice, 18:3, 295-318.

Bramley, T. (2008). Mark scheme features associated with different levels of marker agreement, Papur a gyflwynwyd yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain (BERA), Prifysgol Heriot-Watt, Caeredin, Medi 2008.

Child, S., Munro, J. a Benton, T. (2015). An experimental investigation of the effects of mark scheme features on marking reliability. ARD Research Division Cambridge Assessment.

Christie, M., Grainger, P., Dahlgren, R., Call, K., Heck, D. a Simonet, S. (2015). Improving the Quality of Assessment Grading Tools in Master of Education Courses: A Comparative Case Study in the Scholarship of Teaching and Learning. Journal of the Scholarship of Teaching and Learning, Cyfrol 15, Rhif 5, Hydref, 2015, tt.22-35.

Ghalib, T. a Hattami, A. (2015). Holistic versus Analytic Evaluation of EFL Writing: A Case Study, English Language Teaching 8 (7), 225-236.

Lille, B. a Romero, M. (2017). Creativity Assessment in the Context of Maker-based Projects, Design and Technology Education: an International Journal, 22 (3).

Ofqual (2014). Review of Quality of Marking in Exams in A Levels, GCSEs and Other Academic Qualifications, Ofqual/14/5379.

Pinot de Moira, A. (2011) Levels-based mark schemes and marking bias, CERP, AQA.

Pinot de Moira, A. (2013). Features of a levels-based mark scheme and their effect on marking reliability: Centre for Education Research and Policy, AQA.

Tisi, J., Whitehouse, G., Maughan S. a Burdett, N. (2013). A Review of Literature on Marking Reliability Research (Report for Ofqual), Slough: NFER.

12 Atodiad 3: Manyleb yr Adolygiad Llenyddiaeth

Manyleb yr Adolygiad Llenyddiaeth

Mae'r ddogfen hon yn nodi gofynion yr adolygiad llenyddiaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu canllaw ar gynlluniau marcio ar gyfer Cymwysterau Cymru.

Brîff cyffredinol

Nod y prosiect hwn yw datblygu canllaw ar gynlluniau marcio i'w ddefnyddio gan gyrff dyfarnu yng Nghymru. Bydd y gwaith o ddatblygu'r canllaw hwn yn cael ei gefnogi gan adolygiad llenyddiaeth a chyfweliadau â rhanddeiliaid.
Mae tair agwedd ar y project hwn, felly:

- Adolygiad o'r llenyddiaeth academaidd
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid
- Paratoi'r Canllaw ar Gynlluniau Marcio

Elfennau ategol yw'r adolygiad llenyddiaeth a'r cyfweliadau, er mwyn llywio datblygiad y prif gynnyrch – y canllaw ar gynlluniau marcio.
Y cwestiwn cyffredinol y mae'r adolygiad llenyddiaeth yn ceisio'i ateb yw:
Prif gwestiwn:
Beth mae llenyddiaeth academaidd yn ei ddweud wrthym am egwyddorion dylunio cynlluniau marcio da?
Cwestiwn eilaidd:
Pa rai o nodweddion y cynllun marcio sy'n cefnogi marcio cywir ac asesu dilys?

Termau chwilio

Ar sail yr hyn a wyddom am ofynion yr adolygiad hwn, rydym yn cynnig cynnwys y termau canlynol fel rhan o'r broses chwilio:

- 'Cynlluniau marcio' + dibynadwyedd
- 'Cynlluniau marcio' + dilysrwydd
- 'Asesu gwybodaeth' + 'cynlluniau marcio'
- Arholiad + 'cynlluniau marcio'
- 'Cynlluniau marcio arholiadau'
- Da + 'dyluniad cynlluniau marcio'
- 'Cynllun marcio' + dylunio
- 'Cyfarwyddyd sgorio'
- 'Effeithiol' + 'cyfarwyddyd sgorio'
- 'Cyfarwyddyd sgorio' + 'dyluniad'

Byddwn yn cynnwys llenyddiaeth ers 2000, i gynnwys unrhyw awdurdodaeth, ond wedi'i chyhoeddi yn Saesneg.
Lle y bo'n bosibl, bydd y llenyddiaeth ymchwil yn canolbwyntio ar asesu pobl ifanc 14 i 19 oed, naill ai mewn addysg gyffredinol neu alwedigaethol.
Os deuir o hyd i adolygiadau llenyddiaeth o ansawdd uchel a gyhoeddwyd yn ddiweddar, byddwn yn eu defnyddio fel sylfaen ac yn eu hategu â llenyddiaeth gynharach.
Cynhaliwyd chwiliad ar Google hefyd. Roedd y termau a ddefnyddiwyd yn cynnwys

- 'beth sy'n gwneud cynllun marcio da'
- 'dyluniad cynlluniau marcio'

Methodoleg

Byddwn yn ymgymryd â'r camau canlynol:

- Nodi ffynonellau/cronfa data addas, a phennu/mireinio termau chwilio perthnasol
- Pori drwy'r llenyddiaeth a llunio 'rhestr hir' o gyfeiriadau perthnasol
- Adolygu'r rhestr hir a'i mireinio i greu rhestr fer yn cynnwys tua 12 o ffynonellau o ansawdd da

- Crynhoi'r llenyddiaeth gan ddefnyddio templed y cytunir arno
- Defnyddio'r crynodebau i ysgrifennu'r adolygaid llenyddiaeth.

Nodwyd bod y gwefannau/sefydliadau canlynol o ddiddordeb o bosibl, a byddant yn cael eu hychwanegu i'r cam chwilio cychwynnol:

- CBAC, Edexcel/ Pearson, OCR/ Cambridge Assessment, AQA, City and Guilds

Allbynnau

Bydd yr allbynnau canlynol yn cael eu cynhyrchu:

1. Rhestr hir o'r ffynonellau (cyfeiriadau) a nodwyd
2. Rhestr fer o'r 12 ffynhonnell fwyaf perthnasol, a lle y bo'n bosibl, testun llawn neu ddolen at destun llawn pob un ohonynt.
3. Adolygiad llenyddiaeth wedi'i ysgrifennu yn fformat Word. Ni phennwyd uchafswm geiriau, ond bydd yn gryno ac yn tynnu sylw at y prif ganfyddiadau /argymhellion.